

# CANU GWERIN (FOLK SONG)

---

20 - 1997



CYMDEITHAS  
ALAWON GWERIN  
CYMRU

---

THE WELSH  
FOLK-SONG  
SOCIETY

Dyblygion



\*178221\*



\*9733PA0874\*

English SummariesBaledi Dyffryn Conwy / Gerald Morgan (2-12)  
(The Ballads of the Conwy Valley)

A market for ballad sheets in Welsh had developed during the eighteenth century, when Shrewsbury, Chester and Carmarthen were important printing centres. In the early 1770s Dafydd Jones began printing ballads at Trefriw near Llanrwst, and between then and 1865 he, his son Ismael and grandson John printed more ballads than any other press in Wales.

Some 80 ballads are known to have been printed by Dafydd Jones and a further 52 by his son Ismael, with others identifiable simply by the presence of "Trefriw" in the colophon. Most of the Trefriw ballads were written by Elis y Cowper (d.1789). When Ismael's son John returned from his apprenticeship in 1810-11 the press ceased to be an outlet for the work of one poet, and the standard of printing improved markedly.

John Jones continued to print ballads after his removal to Llanrwst in 1825. Poets and travelling booksellers would submit texts for printing, agree on a price, and return to collect the finished product for sale at markets, fairs and taverns. Though John Jones printed at least 374 ballads during his time at Llanrwst, from 1825 to 1865, it is difficult to analyse his output because so much of it is undated. His son Owen printed under the name of 'Owen Evans-Jones and Co'.

John Jones's accounts suggest that he printed in runs of 2000. These would be sold to the ballad singer or ballad seller at a shilling per hundred: he would then sell the single copies at a penny each. The subjects represented in the ballads are the usual ones: current (dramatic) events, moral tales, and carols. The news carrying function of the ballad declined after 1815 as newspapers became increasingly popular.

Baledwyr, telynoriau a beirdd gwerin Arfon / Dewi Jones (13-25)  
(Ballad-singers, harpists and folk poets of Arfon)

This article surveys the wealth of folk tradition in the Arfon region of north-west Wales. Among the harpists may be numbered Robert Parry (1691-1744) of Llanllyfni who taught John Parry, the celebrated blind harper of Rhiwabon. His son Harri was also a harpist. The Nantlle Valley boasted other harpists during the eighteenth century, including Marged uch Ifan and Angharad James, the latter of whom was also a poet.

The Llanllyfni area produced four prolific ballad-writers during the eighteenth century, chief among whom was Thomas Roberts of Ty'n y weirglodd, whose work was widely disseminated. His brother William was much less prolific. Hugh Roberts, a tailor, produced ballads of varying kinds, including one very amusing description of encounters with live lobsters in a tavern. Harri Owen sold ballads printed by Dafydd Jones of Trefriw between 1778 and 1785, but is not known to have composed verses of his own.

David Thomas, 'Dafydd Ddu Eryri' (1759-1822) from Waunfawr inaugurated a revival of interest in poetry in Arfon in the late eighteenth century. William Bifan produced carols for Candlemas and other poetry, much of which has been lost. Robert Ellis of Llanllyfni produced two books of poetry, *Lloffion Awen Llyfnwy* (1852) and *Carolau Awen Llyfnwy* (posthumous, 1883). The first of these collections contains sixteen *plygain* carols, one Christmas carol and two Easter carols.

Robert Ellis's mantle was taken on by Walter Sylvanus Jones, 'Gwallter Llyfni' (1883-1932), of Llanllyfni, who collected songs and interested himself in the region's folk traditions and their preservation. A poet and musician, he sent some songs to J. Lloyd Williams for inclusion in the *Journal* of the Welsh Folk Song Society.



**Cerdd 'Yr eneth glaf' / Meredydd Evans (26-7)**  
**(The song of the ailing girl)**

The song 'Yr eneth glaf' (The ailing girl) was published by the Society in 1984 in *Canu'r Cymry*, ed. Phyllis Kinney and Meredydd Evans. This note records the discovery by Dewi Jones, author of the previous article, of a manuscript version of the song as noted by Walter Sylvanus Jones, 'Gwallter Llyfni'. This fuller version, of four verses (only three are given in *Canu'r Cymry*), seems to be the original form of the song. It is thoroughly Victorian in atmosphere, and is known to have been popular in the Llanllyfni area during the mid to late nineteenth century.

**Mary Davies - grande dame yr alaw werin yng Nghymru / Wyn Thomas (28-42)**  
**(Mary Davies - grande dame of the folk-song in Wales)**

The Welsh Folk-Song Society benefited significantly in its early years from the dynamic contribution of three women: Ruth Herbert Lewis, Dora Herbert Jones, and Mary Davies. The last named shaped the destiny of the Society in a distinctive way, particularly through the establishment of links with other societies.

Born in London in 1855, the daughter of Williarn Davies 'Mynorydd', she enjoyed a career as a classical singer until her marriage in 1888 to William Cadwaladr Davies and her removal to Bangor. One of the wedding gifts they received was the manuscript of the collection of Welsh melodies placed second in the competition held at the Llangollen Eisteddfod in 1858, a manuscript which after her husband's death in 1905 she sent to J. Lloyd Williams. She herself returned from Bangor to London and acted as an ambassador for Welsh folk-song in the metropolis, where she forged links with English collectors such as Frank Kidson and Lucy Broadwood.

She was an active collector, and her letters to J. Lloyd Williams provide vivid accounts of her experiences. In spite of her limited spoken Welsh, she overcame the reluctance of singers to share their knowledge, and applied scientific principles to her collecting. She also did research in London collections, lectured on songs, encouraged their performance, and, through her membership of the University Council of Music, promoted their publication. It was largely her inspiration that enabled J. Lloyd Williams to persist with his work for the *Journal*, and it was above all her wider vision that enabled the Society to develop at a critical time in its history.

**Esbonio gweddillion / Meredydd Evans (43-45)**  
**(Explaining fragments)**

The song 'Fy meddwl a fy malais' (My mind and malice) appeared in the Society's *Journal* in 1914, recorded by Grace Gwynedd Davies from the singing of Owen Parry of Dwyran, Anglesey. The two verses noted there are evidently corrupt, and the full text of the song is given here as it appears on a ballad sheet printed by John Owen of Pool Lane, Caernarfon. The original copy is at the National Library of Wales.

Its full title is 'Cerdd un yn dewis ffon, o ganol y llwyni' (The song of one selecting a stick from among the bushes). The text of the complete song has erotic connotations not apparent in the truncated version.



# CANU GWERIN

ISSN 0967-0599

*(Folk Song)*

20/1997

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru  
*Journal of the Welsh Folk-Song Society*

---


|                                                                  |    |
|------------------------------------------------------------------|----|
| <b>Baledi Dyffryn Conwy</b> .....                                | 2  |
| Gerald Morgan                                                    |    |
| <b>Baledwyr, telynorion a beirdd gwerin Arfon</b> .....          | 13 |
| Dewi Jones                                                       |    |
| <b>Cerdd 'Yr eneth glaf'</b> .....                               | 26 |
| Meredydd Evans                                                   |    |
| <b>Mary Davies – grande dame yr alaw werin yng Nghymru</b> ..... | 28 |
| Wyn Thomas                                                       |    |
| <b>Esbonio gweddillion</b> .....                                 | 43 |
| Meredydd Evans                                                   |    |
| <b>Y golofn ymchwil</b> .....                                    | 46 |

---

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygyddion na'r Gymdeithas.

*Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editors or the Society.*

Llun y clawr: Dr Mary Davies (1855-1930)



# BALEDI DYFFRYN CONWY

*Gerald Morgan*

---

Yn y traddodiad ysgolheigaidd yn Lloegr y mae'r baledi a gasglwyd oddi ar dafod lleferydd, ac a gyhoeddwyd gan Francis Childe, bob amser wedi cael mwy o sylw na'r baledi a argraffwyd ac a werthwyd mewn marchnad a ffair. Priodolir mwy o werth llenyddol i'r baledi 'llafar', nad oes modd gwybod pwy a'u cyfansoddodd. Gwaetha'r modd, ni chasglwyd ond dyrnaid o faledi felly yn y Gymraeg; rhoddwyd mwy o sylw, felly, i'r baledi argraffedig.<sup>1</sup>

Daeth yr arfer o argraffu baledi o Loegr i Gymru, arfer a oedd eisoes yn gyffredin yn nyddiau Shakespeare, fel y dengys cymeriad Autolycus yn *A Winter's Tale*. Un ydoedd o'r lliaws o ddylanwadau Saesneg a drawsffurfiodd lenyddiaeth Gymraeg bron yn gyfan gwbl. Ond cyn mynd dim ymhellach, rhaid trafod mater o derminoleg. Er ein bod yn defnyddio'r gair *baled*, a phawb yn deall ystyr y gair, nid dyna'r gair a ddefnyddiwyd gan y Cymry gynt, ond *cerdd* a *chân*. *Dwy o Gerddi Newyddion* yw teitl mwyafrif taflenni Dafydd Jones o Drefriw, a *Cân o sen i'w hen feistr* oedd teitl y gyntaf o faledi Isaac Carter yn Nhrefhedyn yn 1718. Y mae eithriadau, wrth gwrs; ymhlith cyhoeddiadau Dafydd Jones y mae:

Balad yn cynnwys dwy o gerddi duwiol

Balad yn cynnwys tair o gerddi newyddion.

Awgryma'r teitl yn glir mai ystyr gyfoes y gair *balad* oedd y daflen brintiedig ei hun, yn hytrach na'i chynnwys, ac y mae'n ddiffiniad cyfleus i ni heddiw. Nid yw'n hawdd diffinio *baledur* chwaith; nid yr un ydoedd â'r canwr baledi, sef y dyn a berfformiai waith nifer o feirdd, ac y mae'n rhwyddach cadw'r teitl ar gyfer y detholedig rai a fyddai'n ysgrifennu cerddi hir ar gyfer eu canu'n gyhoeddus, megis Ywain Meirion, Dic Dywyll ac Abel Crwst.

Erbyn i Ddafydd Jones (1703?-85) osod hen wasg Lewis Morris yn ei gartref yn Nhrefriw, yr oedd cenedlaethau o faledwyr ac argraffwyr wedi datblygu marchnad i'r faled Gymraeg. Amwythig oedd y ganolfan bwysig yn ystod hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif; wedyn bu prysurdeb yng Nghaer a Chaerfyrddin. Cyhoeddai Dafydd Jones ei waith baledol ei hun yn Amwythig am flynyddoedd cyn iddo ddechrau, yn chwe deg wyth oed, argraffu ar ei liwt ei hunan yn Nhrefriw. Dengys llyfryddiaeth J.H. Davies iddo argraffu mwy o

---

<sup>1</sup> E.e. Ben Bowen Thomas, *Drych y Baledur* (Aberystwyth, 1958); Dafydd Owen, *I Fyd y Faled* (Dinbych, 1986); Tegwyn Jones, *Baledi Ywain Meirion* (Bala, 1980); idem, *Abel Jones, Bardd Crust* (Llanrwst, 1989).

faledi na neb arall cyn 1800; gyda'r ychwanegiadau a wnaethpwyd i'r rhestr o gasgliad y Llyfrgell Genedlaethol, dyma'r cyfansymiau:

|                          |    |
|--------------------------|----|
| Dafydd Jones, Trefriw    | 70 |
| Thomas Durston, Amwythig | 31 |
| Stafford Prys, Amwythig  | 28 |
| John Ross, Caerfyrddin   | 26 |

Er nad oes ffigurau pendant ar gael, ymddengys i Ddafydd, ei fab Ismael Davies (bu farw 1817) a'i wŷr John Jones (1796-1865) gyhoeddi neu argraffu mwy o faledi na'r un wasg arall yng Nghymru. Hyd y gwn i, gwasg teulu Trefriw/Llanrwst oedd yr unig wasg yn Nyffryn Conwy a argraffodd faledi Cymraeg.

A dyma'r adeg i drafod terminoleg eto. Beth yw ystyr y geiriau *cyhoeddi*, *cyhoeddwr*? Yn y diwydiant llyfrau yn Lloegr y mae gwahaniaeth eglur rhwng cyhoeddwr ac argraffydd. Y cyhoeddwr sy'n mentro ei arian, yn trefnu'r hysbysebu a'r gwerthu, ac yn talu'r biliau; y mae'r argraffwyr yn rhoi inc ar bapur, dyna i gyd. Y mae'r gwahaniaeth yn llai eglur o lawer yng Nghymru, lle (hyd yn ddiweddar, beth bynnag) yr oedd argraffwyr yn gyhoeddwr hefyd. Ond yn ystod y ddeunawfed ganrif, a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr oedd y dynion yr ydym yn eu galw yn gyhoeddwr, megis teulu Trefriw/Llanrwst, mewn gwirionedd yn argraffwyr. Anaml iawn y defnyddir y gair *cyhoeddwr* ar wyneb-ddalennau llyfrau Llanrwst, ac y mae'n gwestiwn nad wyf wedi ei lwyr ddatrys eto a gyhoeddodd John Jones fwy na dwsin o lyfrau a llyfrynau ar ei fenter ei hun, er iddo argraffu cannoedd dros eraill.

Yr ydym eisoes wedi diffinio baled fel taflen yr argraffwyd cerddi arni a'i gwerthu. Yr oedd mwy nag un fath o daflen, wrth gwrs. Y mae baledi'r ddeunawfed ganrif bron i gyd yn rhai wyth tudalen. Ond yn ystod degawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg fe ddiplannodd y daflen wyth tudalen bron yn llwyr, a'r daflen fechan pedair tudalen, a'r faled blyg mawr, yn cymryd ei lle. Sut hynny? Tybiaf, er na allaf ei brofi, fod yr esboniad yn un economaidd. Pris baledi wyth tudalen oedd ceiniog yn ystod y rhan fwyaf o'r ddeunawfed ganrif.<sup>2</sup> Yr oedd cynnydd enfawr mewn prisiau yn ystod cyfnod Napoleon, a chostau byw yn codi'n enbyd. Beth a wnâi'r baledwyr? Codi prisiau, neu gynnig llai am yr un pris? Credaf mai'r ail a ddigwyddodd.

Ond y mae'n bryd troi'n ôl at Ddafydd Jones. Cyhoeddwyd ychydig o faledi o'i waith trwy argraffwyr eraill, fel y dywedais eisoes, megis hon a restrir yn *Llyfryddiaeth J.H. Davies*:

---

<sup>2</sup> Gw. Stafford Prys, *Tair Can am Geiniog* (J.H.D. rhif 88).



*Ymddiddanion rhwng Gwr Ifange ai Gariad, ac fel ar y diwedd y Cysylltwyr  
hwynt meun gwir Ruymyn Briod.*<sup>3</sup>

Ond nid Dafydd Jones oedd y cyhoeddwr; dywed y coloffon mai Siôn Rhydderch a argraffodd y daflen dros William Rowland, ac y mae'r ail gerdd ar y daflen hon yn waith bardd dienw.

Nid yw llyfryddiaeth J.H. Davies yn gyflawn, ond os gallwn farnu oddi wrthi, yr oedd Dafydd Jones yn argraffu mwy o faledi yn ei henaint yn Nhrefriw nag a wnaeth unrhyw argraffydd Cymreig arall yn ystod y ddeunawfed ganrif. Serch hynny, y mae golwg manwl ar ei gynnyrch yn dangos mai un baledwr yn unig oedd yn gyfrifol am fwyafswm cynnyrch baledol Trefriw, sef Elis y Cowper (bu f. 1789). Ar ba delerau y bu hynny? Weithiau cawn ddwy gerdd gan yr un awdur, a'r coloffon 'Trefryw, Argraphwyd gan Dafydd Jones', neu eiriau i'r un perwyl. Dro arall, ychwanegir y geiriau 'Dros hwn-a-hwn', nid y bardd, ond rhywun arall. A phwy fuasai hwnnw? Rhyw ganwr nad oedd yn fardd? Cyfaill y baledwr yn gweithredu ar ei ran? Tybiaf mai'r llyfrwerthwyr teithiol oeddynt, ond ar gyfer y ddeunawfed ganrif ni wn am unrhyw dystiolaeth i brofi hynny.

O'r baledi o Drefriw sy'n dwyn enw Dafydd Jones fel argraffydd, a restrir yng nghopi'r Llyfrgell Genedlaethol o lyfryddiaeth J.H. Davies, gellir eu dosrannu fel hyn:

|                                                                   |    |
|-------------------------------------------------------------------|----|
| A. Cerddi i gyd gan yr un awdur                                   | 47 |
| B. Cerddi gan amryw o awduron                                     | 16 |
| C. Ansicr (e.e. un gerdd a briodolir i awdur, y llall yn ddiennw) | 17 |

O grŵp A, y mae 42 yn faledi sy'n cynnwys gwaith Elis y Cowper a neb arall, ac y mae nifer o gerddi'r ail ddosbarth yn waith Elis y Cowper hefyd. Hynny yw, nid cyfrwng i faledwyr Cymru'n gyffredinol oedd gwasg Trefriw, ond cyfrwng i Elis y Cowper, bardd toreithiog yr oedd ei gartref, Llanddoged, nid nepell i ffwrdd. Ond ai'r bardd ei hun oedd yn cyhoeddi'r cerddi? Yn achos J.H. Davies rhif 297, er enghraifft, dywed y coloffon 'Argraphwyd yn Nhrefryw gan Dafydd Jones, tros John Williams'. Y mae'n debyg mai'r llyfrwerthwyr teithiol oedd yn gyfrifol am y cyhoeddi; ni wyddys beth oedd y trefniadau ariannol.

Nid oedd safon gwaith argraffu Dafydd Jones yn uwch na gweddill argraffwyr y cyfnod, a bu dirywiad wedi iddo farw yn 1785. Hyd yn oed cyn ei farw fe argraffwyd ychydig o gerddi heb enw'r argraffydd, yn dwyn y geiriau 'Trefriw Argraphwyd', ond dengys y dyddiadau fod y dosbarth hwn (naw yn *Llyfryddiaeth* J.H. Davies) yn gynnyrch y wasg cyn marw Dafydd. At y cyfanswm o 80 o gerddi a ddaeth o'r wasg yn ystod oes Dafydd Jones, gellir ychwanegu 52 o

<sup>3</sup> J.H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads Printed in the 18th century* (Llundain, 1908-11), rhif 51.

faledi a argraffwyd yn dwyn y coloffonau 'I. Davies Argraffydd Trefriw' neu 'Trefriw, Argraphwyd gan Ismael Davies'. Er bod J.H. Davies yn bwriadu cynnwys baledi'r ddeunawfed ganrif yn unig, nid oedd ac nid oes modd gwahaniaethu rhwng cynnyrch Ismael Davies cyn 1800 ac wedyn. Yn ogystal â'r 52 dros ei enw, ceir gan J.H. Davies 38 o faledi heb enw'r argraffydd, ond gyda'r gair 'Trefriw' yn y coloffon. Dyna gyfanswm o 170 o daflenni o wasg Trefriw, o 1776 hyd oddeutu 1810. Yr oedd y wasg yn gynhyrchiol iawn, felly, ac yn lle argraffu gwaith un bardd yn bennaf, ymddangosai cerddi lliaws o feirdd ar y taflenni brau.

Cyfeiriais eisoes at safon isel yr argraffu yn Nhrefriw, a chan argraffwyr y baledi'n gyffredinol. Anodd deall beth oedd ym meddwl Thomas Parry, yn ei gyfrol ardderchog *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*,<sup>4</sup> wrth iddo ganmol Ismael Davies fel argraffydd cain. Y mae gwaith Ismael yn ystod cyfnod helaeth o'i yrfa yn echrydus! Nid yw hynny'n syn; yr oedd hen wasg Lewis Morris wedi gweld dyddiau gwell, a'r teip hefyd.

Fe ddaeth gwelliant amlwg yn safon argraffu Trefriw pan ddychwelodd John Jones, mab Ismael Davies, yn ôl i'r brentisiaeth, yn Lerpwl yn ôl un traddodiad, gyda syniadau pendant am wella'r golwg ar gynnyrch y wasg. Gellir dyddio hynny i'r blyneddodedd 1810-11; yn sydyn y mae llyfrau sylweddol yn dechrau ymddangos o'r wasg, gydag wyneb-ddalennau o safon. Y mae'n bur debyg eu bod yn gynnyrch y gweisg Ruthven a adeiladwyd gan John Jones ei hun. Y mae'r baledi hwythau hefyd yn ymdwio'n sydyn, gyda'r coloffon 'Trefriw: argraffwyd gan Ismael Davies', a'r wyneb-ddalennau yn hynod o dwf.

Wedi marwolaeth Ismael Davies, daliodd ei fab John Jones i weithio yn Nhrefriw am gyfnod, cyn symud i Lanrwst yn 1825. Yn ystod yr ymchwil anorffenedig a wnes ugain mlynedd yn ôl, lluniais restr o faledi pedair tudalen John Jones, a gellid dosrannu cynnyrch baledol ei wasg yn Nhrefriw/Llanrwst fel hyn:

D. Baledi Trefriw 1817-25: 72<sup>5</sup>

E. Baledi Llanrwst 1825-65: 374

Y mae'n siwr y bydd ymchwil diweddar Mr Tegwyn Jones, pan gyhoeddir ef, yn dangos bod y cynnyrch yn uwch. Y mae fy ffigurau ar gyfer Llanrwst yn cynnwys nifer sylweddol o faledi heb goloffon, ond gellir dangos (trwy'r lluniau a ddefnyddiwyd, gan amlaf) mai gwaith John Jones ydynt. Er mwyn gorffen â'r ffigurau, cefais hyd i 73 o faledi plyg mawr o Drefriw a Llanrwst.<sup>6</sup>

<sup>4</sup> Thomas Parry, *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 1935), t.20.

<sup>5</sup> Ond y mae un ohonynt yn od; dyddiad y faled yw 1819, ond lleolir yr argraffu yn Llanrwst! Tybiaf mai camgymeriad yw'r dyddiad.

<sup>6</sup> Un faled yn unig a welais o waith William Jones, a fu'n argraffu yn Llanrwst tua 1850, sef 'Galar-Gan er cof am Lofryddiaeth ddigymar a gyflawnwyd yn y mynydd uwchlaw Roe Wen.... Y Gog ai cant'. Ni wn a gyhoeddwyd unrhyw faled gan Hugh Jones, a fu hefyd yn argraffu yn Llanrwst tua 1842-4.

Yn ystod y cyfnod 1811-17 yn Nhrefriw, argraffwyd amrywiaeth aruthrol o gerddi gan liaws o feirdd: Dewi Wyn o Eifion, Siôn Lley, Thomas Jones, Owen Evans, Rebecca Williams, Richard Davies, William Croom, Peter Williams Saer o Lynynys, Robert Davies 'Bardd Nantglyn', John Booley, Robert Maurice 'Melinydd' ac eraill. Arhosodd rhai o gerddi Elis y Cowper, Hugh Jones o Langwm a Thwm o'r Nant yn y *repertoire*, ond bwriwyd y rhwyd yn eang; nid gwasg-un-bardd oedd Trefriw bellach. Rhwng 1817 ac 1825 yr oedd ychydig o waith yr hen ffefrynnau, megis Elis y Cowper, Twm o'r Nant a Hugh Jones o Langwm, yn dal i ymddangos. Ond bellach yr oedd gwaith beirdd o bob cwr yn cael ei argraffu gan John Jones, yn cynnwys beirdd o'r De megis Thomas Harries (Abertawe) a Dafydd Jones (Troed-yr-aur, Ceredigion) a gwaith merched megis Elizabeth Davies a Mary Robert Ellis.

Erys tystiolaeth o gyfnod John Jones i ddangos beth oedd y broses gyhoeddi. Deuai bardd neu lyfrwerthwr teithiol i roi testunau o flaen yr argraffydd, gan gytuno ar bris argraffu, a dychwelyd i gasglu'r cerddi gorffenedig i'w gwerthu mewn ffair, marchnad a thafarn, ac o ddrws i ddrws. Deuai'r cerddi eu hunain o wahanol ffynonellau: rhai'n newydd sbon, rhai a argraffwyd o'r blaen gan yr un wasg, a rhai o stoc argraffwyr eraill. Nid oedd unrhyw ddeddf na chydwybod hawlfraint yn gwasgu ar neb. Ar un llaw, argraffodd John Jones faled Dic Dywyll, *Marchnad Caernarfon*, heb enwi'r awdur; ar y llaw arall, argraffodd L. E. Jones, *Caernarfon*, gerdd boblogaidd o waith John Jones ei hun, sef *Myfyrdod ar Lanau Conwy*, heb ofyn caniatâd y bardd-argraffydd.

Gwaetha'r modd, y mae'n anodd dadansoddi cynnyrch John Jones wedi iddo symud i Lanrwst, o 1825 hyd ei farw yn 1865, mor fanwl ag yr hoffwn. Y mae hyn yn bennaf am nad oedd yn dyddio ei waith, a hefyd am nad oedd yn cyhoeddi llawer o faledi cyfoes, hynny yw, baledi trychineb, llofruddiaeth, llongddrylliad a rhyfel, a fyddai'n cynnwys dyddiadau. Fel y crybwyllwyd eisoes, argraffodd nifer o faledi heb goloffon o gwbl, a rhaid wrth gof neilltuol o dda i brofi eu bod yn tarddu o Lanrwst; y mae hynny'n bosibl pan ddefnyddir yr un llun ar dafenni gwahanol, ac un fersiwn yn dwyn enw John Jones. Ond er bod y defnydd o luniau yn cynyddu'n sylweddol yn ystod degawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, argraffwyd llawer heb yr un llun o gwbl. Gellir hefyd gymharu gwaith cysodi'r gweisg amrywiol, ond gan mai isel oedd safon y gwaith argraffu (pa syndod, gan mai cynnyrch rhad a diflanedig oedd y baledi i fod), ni ellir dibynnu ar gymariaethau felly i fod yn gywir bob tro.

Anhawster arall, wrth gwrs, yw cael hyd i'r baledi o gwbl. Cyfeiriais at y 374 o faledi yr wyf yn sicr i John Jones eu hargraffu yn Llanrwst. Cribo casgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol a wnes yn fy ngwaith ymchwil, ond nid eu dihybsyddu, ac ni fu modd archwilio casgliadau Bangor, Caerdydd, a'r

casgliadau eraill mewn llyfrgelloedd ac archifdai sirol. Nid wyf wedi cyfrif y baledi a argraffwyd dros enw mab John Jones, sef Owen, neu 'Owen Evans-Jones a'i Gyf.', fel y galwai ei hun.<sup>7</sup> Argraffodd Owen restr o'r baledi ar werth yn y siop rywdro wedi marwolaeth ei dad, ac y mae honno'n cynnwys 138 o deitlau. Ond faint o'r rheiny oedd yn hen stoc ei dad nid oes modd gwybod. Byddai John Jones yn cysodi cerddi ar gyfer eu hargraffu; weithiau fe fyddai'n cadw'r teip ynghyd ar gyfer argraffiad newydd, a'r unig ffordd o weld y gwahaniaeth rhwng argraffiad ac argraffiad yw bod y llun wedi newid. Yn yr un modd, y cyfan a wnâi Owen Evans-Jones oedd newid y coloffon o enw ei dad i'w enw ei hun. Ni chredaf iddo gyhoeddi llawer o waith newydd; y mae John ei dad yn ei ddisgrifio yn ei lythyrau fel dyn ifanc eithriadol o ddiog a diffwrth.

Yr oedd rhai o'r argraffwyr baledi yn barod i fynd ymhellach fyth wrth ailddefnyddio hen ddefnyddiau. Yr oedd Hugh Humphreys, Caernarfon, yn barod iawn i ddefnyddio'r teip a gysodwyd ar gyfer baledi unigol i greu cyfrolau o gerddi. Ni wnaeth John Jones hynny ond unwaith, hyd y gwn; yn 1826 argraffodd gyfrol o'r enw *Piser Alis y'ch Rhys*. Hynny yw, argraffodd wyneb-ddalen, a rhwymo honno gyda bwndeli o faledi o'i hen stoc, gan gynnwys ym mhob copi faled a argraffwyd yng Nghaernarfon gan Peter Evans. Dywedir ar yr wyneb-ddalen fod y gwaith 'dros R.R. Walter a W. Brooks', a gwyddys mai llyfrwerthwr teithiol oedd Brooks.

Erbyn cyfnod Llanrwst yr oedd rhai o feirdd y ganrif flaenorol wedi colli eu bri. Hyd y gwn, ni argraffodd John Jones yr un o gerddi Elis y Cowper yn ystod degawdau Llanrwst. Ailargraffwyd ychydig o gerddi Twm o'r Nant o hyd, ac yr oedd mynd parhaol ar waith Jac Jones, Glan-y-gors. Y mae gennyf gopi o'i gerdd *Hanes y Sessiwn yng Nghymru* gyda nodyn yn llaw Bob Owen, Croesor: 'Onid yw hon yn dda ofnadwy!' Cyhoeddodd John Jones gyfrol o gerddi Glan-y-gors yn 1858, sef *Yr Awen Fywiog*, a hynny ar ei liwt ei hun. Ond yr oedd beirdd newydd wedi dod i fri, yn enwedig Dic Dywyll (Richard Williams) ac Ywain Meirion (Owen Griffith).

Beth oedd perthynas y ddau enwog hyn â John Jones, nis gwn. A ddeuent yn bersonol i gomisiynu argraffu eu cerddi, ai gyrru eraill ar eu rhan, ai gorfod dioddef cystadleuaeth rhwng argraffwyr nad oeddynt yn talu iddynt am ddefnyddio eu gwaith, nid oes modd profi, er ei bod yn amlwg fod llawer o argraffwyr yn defnyddio'r un cerddi. Gwaetha'r modd, nid yw bodolaeth y gair *newydd* mewn teitl yn profi dim. Wedi iddo symud i Lanrwst yn 1825, argraffodd John Jones faled o'r enw:

---

<sup>7</sup> Y mae Peter Lord, yn ei lyfr ardderchog *Words with Pictures* (Aberystwyth, 1995), t.96, wedi drys dau o feibion John Jones. Argraffai Evan ym Mhorthmadog, tra diogai Owen gartref hyd farwolaeth ei dad yn 1865, pan ddechreuodd argraffu dan yr enw Owen Evans-Jones.



*Cerdd Newydd O hanes fel bu ryw Offeiriad yn rhoi ei wasanaeth  
i un o'i Blwyfion oedd yn glaf..*

Ond yr oedd y bardd wedi marw yn 1821, felly nid cerdd newydd mohoni.

Ymddengys o lyfrau cownt a llythyrau John Jones mai'r arfer oedd argraffu dwy fil o gopiau o unrhyw gerdd, a'r pris amdanynt i'r gwerthwr fyddai swllt y cant. Ymddengys y swm o bunt yn fach iawn am y gwaith o gysodi a phris y papur ar ben hynny, tra bod y gwerthwr yn cael ceiniog yr un, neu wyth swllt a grot am gant. Ni raid gwerthu mwy na thri chant i glirio'r gost; byddai'r fil a saith cant arall yn elw pur. Ond yr oedd John Jones yn ystyried argraffu cerddi yn broffidiol; yn un o'i lythyron at Evan ei fab, a oedd yn argraffydd ym Mhorthmadog, y mae'n cwyno fod gwaith argraffu llyfrau ABC yn talu'n wael; gellid bod wedi argraffu deg neu ddeuddeng mil o gerddi yn yr un amser.

Nid oedd pethau mor syml â hynny, wrth gwrs. Un a ddeuai at John Jones oedd dyn o'r enw Owen James. Ys dywedodd John Jones wrth ei fab Evan, a oedd yn argraffu ym Mhorthmadog:

Ni fyddi fawr yn dy fantais o ddelio ag Owen James, – hen ragrithiwr celwyddog yw yr hen greadur. Oni werth y cerddi yn ol ei ddisgwyliad, ni ddaw efe byth ar eu cyful, nag i dalu am a gafodd. Yr wyf fi wedi argraffu mil iddo o Gerddi Swyngyfaredd, gan Edward Jones, Maes y Plwm. Daeth i geisio un cant ohonynt heb arian, a hyny ers misoedd yn ol, – a thebyg na welaf mo hono mwy.\*

Dyna dystiolaeth i brofi mor gyfyng oedd byd y gwerthwr a'r argraffydd; y cyntaf yn prynu ar goel, yr ail yn gwneud colled. Yr oedd John Jones, wrth gwrs, yn cadw stoc o lyfrau, llyfrynnau a baledi yn ei siop i'w gwerthu, a byddai hefyd yn ffeirio stoc gydag argraffwyr eraill er mwyn cael mwy o amrywiaeth.

O ystyried mor gyfyng yw fformat y faled bedair tudalen, y mae'n syndod gymaint o amrywiaeth sy'n bosibl. Y mae rhai yn cynnwys un gerdd, eraill ddwy neu dair. Defnyddiwyd lluniau mewn sawl safle ar y tudalennau, weithiau heb ddangos unrhyw berthynas â'r cerddi eu hunain. Ceir ychydig o faledi gydag wyneb-ddalen gyflawn, eraill gyda'r dôn wedi ei hargraffu.

Y mae amrywiaeth fwy fyth i'w gweld yn nhestunau'r baledi. Er fy mod yn defnyddio'r gair *baled* i olygu'r taflenni eu hunain, beth bynnag fo'r cynnwys, eto yng nghefn meddwl dyn y mae'r syniad o faled fel cerdd sy'n dweud stori, ac ym maes y baledi printiedig, storiâu am ryfel, llofruddiaeth neu ddamwain. Ond nid y rheiny yw mwyafrif y baledi printiedig Saesneg na Chymraeg. Ceir amrywiaeth aruthrol, yn cynnwys cerddi crefyddol a moesol, carolau, caneuon caru a chyngor

---

\* Llsg. LLGC 12,021C.

ynghŷn â charu, cerddi digrif a cherddi dychanol, cerddi hiraethus a cherddi moliant. Tybed a oes modd gweld newidiadau mewn ffasiynau baledol?

Gwelir isod ymgais i ddosrannu pynciau'r baledi Trefriw a argraffwyd gan Dafydd Jones hyd 1785, baledi Trefriw o gyfnod John Jones (1811-25), a baledi Llanrwst (1825-65), gan hepgor cynnyrch Trefriw dros enw Ismael Davies cyn dychweliad John Jones oherwydd cymhlethdodau dyddio. Nid gwaith hawdd oedd y dosrannu. Yn achos ail gyfnod Trefriw a chyfnod Llanrwst, penderfynais ar y gerdd gyntaf a ymddengys ar bob taflen, gan y byddai prif apêl y faled yn dibynnu ar y gerdd gyntaf. Ond yn achos baledi Dafydd Jones, gwerthwyd hwy bron bob un dan yr enw 'Dwy o gerddi' felly cynhwysais bob un. Beth am wahanol argraffiadau o'r un gerdd? Penderfynais eu hanwybyddu – un gerdd, un pennawd, felly dadansoddwyd 305 o faledi Llanrwst, ac nid y rhestr gyflawn.

Problem arall oedd diffinio themâu'r cerddi. A ddylid cynnwys carolau plygain gyda cherddi crefyddol, neu ar wahân? Beth am gerddi sy'n ymddangos yn foisol ac yn grefyddol? Os gwahanu rhwng cerddi sy'n adrodd stori a cherddi sy'n trafod cariad, beth am y rhai sy'n adrodd storiâu serch? Beth am y rhai sy'n rhoi cyngor ar garu – ai cerddi moesol ydynt? Mae'n amlwg y gellid rhoi llawer cerdd dan fwy nag un pennawd. Cymerer er enghraifft *Can newydd, yn rhoddi hanes dychrynllyd am Farn Duw, pan oedd yr yd wedi ei gasglu, fe ddarfu Duw ei daro a mellt*. Ai damwain, ai crefyddol, ai moesol yw'r thema? Gallai rhai caneuon serch ddod o dan caru, digrif, dychan, stori. Y canlyniad yw fod y ffigurau isod yn tarddu o ddosraniadau mympwyol, ac ni ellir dibynnu'n drwm arnynt (mae'r pennawd 'Eraill' yn cynnwys pump o themâu amrywiol).

|                                  | TREFRIW I | TREFRIW II | LLANRWST |
|----------------------------------|-----------|------------|----------|
| Cyfansymiau                      | 149       | 143        | 305      |
| Crefyddol                        | 27        | 40         | 28       |
| Carolau                          | 2         | 6          | 23       |
| Moesol                           | 18        | 8          | 26       |
| Digrif a dychan                  | 14        | 9          | 45       |
| Damwain/<br>llofruddiaeth        | 14        | 29         | 29       |
| Newyddion/rhyfel/<br>gwleidyddol | 35        | 15         | 18       |
| Caru/cyngor caru                 | 18        | 14         | 42       |
| Hiraeth/America/<br>Awstralia    | -         | -          | 29       |
| Rhyfeddodau                      | 9         | 3          | 1        |
| Eraill                           | 12        | 20         | 44       |

YR  
HEN AMSER GYNT.

—••••—  
Bu'n hoff i mi wrth deithio 'mhell  
Gael croesaw ar fy hynt,  
Mil hoffach yw cael henffych well  
Gan un fun gyfaill gynt;

BYRDWN.

Er mwyn yr amser gynt, fy ffryns,  
Yr hen amser gynt,  
Cawn wydraid bach cyn canu'n iach,  
Er mwyn yr amser gynt.

Yn chwarae buom lawer tro,  
A'n penau yn y gwynt,  
A phleser mawr yw cadw co',  
O'r hyfryd amser gynt:  
Er mwyn, &c.

Er digwyddiadau fwy na rhi',  
Er gwario llawer punt,  
Er pob rhyw goll, ni chollais i  
Mo'r cof o'r amser gynt:  
Er mwyn, &c.

Tra curo calon dan fy mron,  
Er mwyn ein hylon hynt,  
Tra carai'm gwlad, tra llygad llon,  
Mi gofia'r amser gynt:  
Er mwyn, &c.

JOHN BLACKWELL. WYDDGRUG  
Llanrwst : Argraffwyd gan J. Jones.

*Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

O gofio nad canrannau yw'r ffigurau uchod, gellir gweld gwahaniaethau amlwg, er nad yw eu harwyddocâd bob tro mor amlwg. Y mae rhai yn hawdd i'w hesbonio; awgrymaf fod y lleihad yn nifer y baledi sy'n disgrifio 'rhyfeddodau' yn ganlyniad naturiol i'r ffaith fod addysg, yn enwedig yr Ysgolion Sul, yn effeithio er gwell ar hygoledd pobl. Y mae ymddangosiad sydyn y dosbarth 'Hiraeth' i'w briodoli yn bennaf i'r twf mewn ymfudo i America ac Awstralia; mae'n wir nad peth newydd ydoedd, ond yr oedd cynnydd aruthrol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y mae'r lleihad yn nifer y baledi a elwais yn grefyddol a'r cynnydd 'moesol' yn ddiddorol ond yn gymhleth; serch hynny, tybiaf fod y ffurfioli crefyddol a ddigwyddodd yn oes Fictoria, er gwaethaf y diwygiadau ysbeidiol, yn rhan o'r ateb. Ar y llaw arall, y mae'r twf yn nifer y carolau'n ddiddorol; gellir tybio ei fod yn adlewyrchu newid yn agwedd pobl at y Nadolig.

Y mae'r lleihad yn nifer y baledi yn trafod materion cyfoes, rhyfeloedd, brwydrau a gwleidyddiaeth yn drawiadol; yr oedd rhyfel yn ffactor blaenllaw rhwng 1776 a 1815, ond wedi hynny bu heddwch yn Ewrop am ddeugain mlynedd bron, a dyna gyfnod dyfodiad y wasg wythnosol i Gymru, gan ledau newyddion yn gyflymach nag a wnâi baledi. Yr oedd twf amlwg yn nifer y cerddi caru a'r cerddi digrif a dychanol, ac ymddangosodd dosbarth a elwir 'hiraeth' am fod cymaint ohonynt yn ymwneud â phwnc ymfudo, ac yn ei weld yn broses drist, boenus a llawn hiraeth. Y mae twf sentimentaliti neu or-deimladrwydd oes Fictoria yn esboniad posibl ar y ffenomenâu hyn.

Ni ddylid dibynnu'n ormodol ar y ffigurau hyn am unrhyw gasgliadau pendant am ffasiynau llenyddol a symudiadau cymdeithasol yng Nghymru. Maent yn cynrychioli cynnyrch un wasg yn unig, ac nid y cyfan o holl waith y wasg honno chwaith. Ond nid yw'r newidiadau yn annisgwyl. Yr oedd dyfodiad y wasg wythnosol Saesneg a Chymraeg, a oedd fwyfwy dylanwadol erbyn canol y ganrif ddiwethaf, yn allweddol. Pwy a dalai am damaid o gerdd yn trafod un frwydr, un llofruddiaeth, pan ellid talu am lond papur o newyddion?

Yr oedd y newidiadau hyn yn rhagfynegi diflaniad y faled ffair a marchnad o ddiwylliant poblogaidd Cymru. Wedi marwolaeth Owen Evans-Jones yn 1887, y mae'n amheus a wnaeth yr olaf o'r teulu, J.J. Lloyd (ŵyr John Jones), argraffu'r un faled yn ystod ei gyfnod maith ond tawel wrth y llyw (bu farw yn 1935). Yr oedd gweisg eraill, (yn Amlwch a Lerpwl ymhlith lleoedd eraill) yn dal i argraffu cerddi hyd ddechrau'r ugeinfed ganrif, ond yr oedd marwolaeth Abel Crwst yn nhloty Llanrwst yn 1901 yn ddiwedd oes.



### Ôl-nodyn: y Baledi Plyg Mawr

Y mae hanes y baledi plyg mawr yn perthyn yn agosach i fyd celfyddyd nag i fyd canu gwerin. Go brin y bu'r gwerthwyr crwydrol megis Thomas Williams, Capelulo, yn cario bwndeli o'r taflenni brau hyn a'u gwerthu mewn ffair na marchnad. Y mae eu hanes yn gysylltiedig â'r defnydd cynyddol o luniau a wnaethpwyd gan argraffwyr Cymreig yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y mae Peter Lord wedi dangos.<sup>9</sup> A barnu wrth y taflenni sydd wedi goroesi, dim ond dwy wasg a gynhyrchodd daflenni plyg mawr o ddifrif, sef Isaac Thomas, Aberteifi, a John Jones yn Nhrefriw a Llanrwst, ac o'r ddau argraffydd, John Jones oedd yr arloeswr.

Eisoes yn Nhrefriw yr oedd John Jones wedi arbrofi gyda'r dull hwn o gyhoeddi cerdd. Dros enw Ismael Davies, a dan y teitl *Rhagorffaint y Cymry*, argraffwyd tair o gerddi Siôn Lley (John Roberts, 1749-1817), a hynny heb ddarlun o gwbl. Y mae taflen arall sy'n cynnwys dwy gân ddigrif a darlun amrwd o ddyn a cheffyl, yn perthyn i'r un cyfnod.<sup>10</sup> Ond daeth y datblygiad pwysicaf tua 1833 pan lwyddodd John Jones i sicrhau cydweithrediad y Cymro o Gaernarfon, James Cope, i lunio blociau niferus yn unswydd i ddylunio baledi unigol. Posterï'r oes oedd y baledi hyn, i'w gosod ar bared a'u hedmygu. Yr oedd y themâu yr un mor amrywiol â'r baledi bychain; ceir caneuon serch a dychan, a disgrifiadau o lofruddiaethau. Ond y cynnyrch mwyaf nodedig yw'r caneuon Beiblaidd, yn adrodd straeon o'r Hen Destament gan amlaf, gyda naill ai un llun mawr neu gyfres o luniau llai, i ddarlunio'r hanes. Ymhlith y testunau ceir 'Arch Noa', 'Abraham yn aberthu Isaac', 'Dydd y Farn Fawr' a 'Bywyd a Dioddefaint Crist'. Yr oedd caneuon dwys megis 'Myfyrdod wrth Glywed y Cloc yn Taro' a 'Deuddeg Tymor Bywyd' yn boblogaidd hefyd.

Crefftwr oedd John Jones a weithiai dros y sawl a dalai iddo, ond yr oedd yn Rhyddfrydwr i'r carn. Er iddo argraffu marwnad Syr Watkin Williams-Wynn (1840) ar ffurf taflen fawr, yr oedd yn hapusach, mae'n siŵr, wrth gyhoeddi 'Englynion yn dymuno llwyddiant i Mr Biddulph (Diwygiwr, Nant-y-Fedwen)'; credaf mai gwaith John Jones ei hun yw'r englynion. Un o'r taflenni mawr mwyaf trawiadol o'i waith oedd 'Fflangellu yn y Milisia', a gyhoeddwyd dan nawdd y Gymdeithas Heddwch, sef llun dramatig o filwr yn cael ei chwipio.

---

<sup>9</sup> Peter Lord, *Words with Pictures*, tt. 88-112.

<sup>10</sup> Ibid., t.89.

# BALEDWYR, TELYNORION A BEIRDD GWERIN ARFON

*Dewi Jones*

---

## **Y Telynorion**

Robert Parry o Lanllyfni oedd athro telyn John Parry, y telynor dall o Riwabon, a deallaf fod perthynas deuluol rhyngddynt. Roedd Robert Parry yn fab i Henry Williams a bedyddiwyd ef yn Eglwys Lanllyfni yn 1691. Ceir y cofnod canlynol yng nghoflyfr plwyf Lanllyfni am y flwyddyn 1744, 'Buried Robert Parry Harper on 15<sup>th</sup> January'. Yn y flwyddyn 1749 ceir y nodyn, 'Married Henry Robert Parry Harper and Margaret Parry Banns being first published ye 23<sup>rd</sup> of February'. Yr oedd telynor poblogaidd yn byw yn Lanllyfni yn ystod y cyfnod hwn o'r enw Harri ap Harri a cheir cyfres o wyth englyn dyddiedig 13 Awst 1779 o waith Thomas Williams, Abermaw, sy'n rhoi teyrnged iddo. Dyma'r cyntaf a'r olaf o'r gyfres:

O Folawd i Harri ap Harri o Lanllyfni

Gwnawd mwyngych lonwych englynion – i wyr

Oherwydd Gorchestion

Dewr alwad Daiarolion

Ymysg Cler yw'r arfer hon

Y cywrain waith, car yn wych

A rydd yn well wreiddyn iach

E fydd ei sail trwy fodd sych

O wir bwyll i Harri bach.

Mewn erthygl ar hen delynorion gan Alltud Eifion a ymddangosodd yn rhifyn LX o'r cylchgrawn *Cymru* (tt. 46-7) dywed yr awdur i'r ffeithiau sydd ynddi gael eu trosglwyddo iddo gan gyfaill a oedd wedi eu cael gan yr hen delynor adnabyddus Robert Williams Llanbedrog. Mae'r erthygl yn cadarnhau bodolaeth dau delynor o'r enw Harri o Lanllyfni.

Y ddau Harri o Lanllyfni, – y mab a'r tad, – yr oeddynt yn gerddorion iawn. Clywais y gallai y ddau chwareu yr un dôn ar yr un delyn ar unwaith, mewn wythau i'w gilydd. Yr oedd yr Harri ieuengaf yn dad i John Parry, Oriedydd, Tremadog, ac yn daid i Robert Parry, Pwllheli.

Cenir clodydd Harri'r telynor mewn hen benillion telyn hefyd. Ni wn pwys a'u cyfansoddodd ond roedd penillion o'r fath yn boblogaidd drwy Gymru

benbaladr wedi eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall ar lafar gwlad. Dyna beth yw traddodiad a dyna sut mae ein llên gwerin wedi goroesi:

Pan ddaw telyn Harri i bentref Llanllyfni,  
Yna ceir canu yn heini mewn heddd,  
Rhwng chwech o gantorion y bydd yr ymryson,  
Gwyr Arfon da wiwlôn diwaeledd.

Un William o Ddrwsgoed, a Gruffydd Isalltgoed,  
A Rhisiart o'r Ffriddgoed, gŵr dewr ar ei gainc,  
A Rolant Caernarfon, ac Ifan Tai'r Meibion,  
A Dafydd, gŵr hylaw, Dol Helig.

Ac mewn fersiwn arall:

Pan ddaw telyn Harri i bentref Llanllyfni  
Gwnawn neithior yw moli, rwi'n gwaeddi am roi gwadd  
I chwech o gantorion rhai manwl a mwynion  
A rhaini'r un galon ai gilydd.

Un o Hendreforion, Llanllyfni, oedd Ffowc Bach y Cantwr a gafodd dri mis o addysg yn Nolgellau gan Ioan Rhagfyr. Dywedir bod Harri delynor yn gyfaill i Ioan Rhagfyr a diau i Ffowc elwa hefyd oddi wrth ei gymydog yn ystod blynyddoedd ei ieuenctid yn Llanllyfni. Symudodd Ffowc i fyw i'r Clegyr, ger Llanberis wedi iddo briodi, a theithiai i Fôn a rhannau eraill o'r wlad i ddysgu pobl i ganu yn yr Eglwysi am dâl o ychydig geiniogau a blawd haidd. Cafodd oes hir a bu farw yn 96 mlwydd oed a cheir cofnod ei gladdu yng nghoflyfr plwyf Llanrug ar 15 Rhagfyr 1870 gyda'r nodyn canlynol: 'The well known singing Master, he had his faculties to the end and sat up in his chair, he was a native of Llanllyfni or Llandwrog'.

Cydoesai dau delynor a dwy delynores arall yn Nyffryn Nantlle yn ystod y ddeunawfed ganrif. Safai hen ffermdy Llwyn y fuches gerllaw y tŷ annedd a elwid Llwyn Onn yng nghanol pentref Pen-y-groes. Rhannwyd y fferm yn nifer o fân ffermydd yn ddiweddarach, ac ar y tiroedd hyn y tyfodd pentref Pen-y-groes yn sgîl twf y diwydiant llechi. Llwyn y fuches oedd cartref John Griffith y telynor a'i ferch Mary a oedd yn delynores. Yr oeddynt yn eu blodau rhwng y blynyddoedd 1744 a 1752. Priododd Mary gydag Ifan Jones y melinydd, Llanllyfni yn Rhagfyr 1749.

Yn rhanbarth uchaf Dyffryn Nantlle roedd telynor o'r enw Richard Morris yn byw gyda'i wraig, sef yr anfarwol Marged uch Ifan, yn nhafarn y Telyrnia islaw y Gelli Ffrydiau ger Nantlle. Symudodd y ddau i fyw i Ben Llyn

yng ngwaelod Dyffryn Padarn, ardal Llanberis, yn ddiweddarach, lle daliai Marged gytundeb i gario'r copr i lawr y llynnoedd o'r gweithfeydd wrth odre'r Wyddfa.

Roedd Marged hithau'n gerddor o fri. Chwaraei'r delyn, y crwth a'r ffidil, ac roedd ganddi ugeiniau o hen alawon gwerin Cymreig ar ei chof. Gallai hefyd wneud telynau. Mae sôn amdani'n chwarae'r delyn yn nrws y Telyrnia ar nosweithiau o haf a'i chwsmeriaid yn dawnsio o'i chwmpas.

Mae gan Farged fwyn ferch Ifan  
Delyn fawr a thelyn fechan,  
Un i chwarae'n nhre Caernarfon  
A'r llall i gadw'r gŵr yn ffyddlon.

Mae gan Marged fwyn ferch Ifan  
Grafanc fawr a chrafanc fechan;  
Un i dynnu'r cŵn o'r gongol,  
A'r llall i dorri esgyrn pobol.

Nid nepell o safle tafarn y Telyrnia saif ffermdy'r Gelli Ffrydiau ac yma yn ystod ugain mlynedd olaf yr ail ganrif ar bymtheg y treuliodd Angharad James flynyddoedd ei hieuenctid. Yr oedd yn ferch i James Davies ac Angharad Humphreys ac enwyd hi yn Angharad James yn ôl y drefn Gymreig. Yr oedd ei thad yn ysgrifennwr ac yn gasglwr cerddi, ac roedd y Parchedig John Jones Talysarn yn orwyr iddi. Derbyniodd addysg dda a daeth yn hyddysg mewn Lladin ac roedd hefyd yn fardd a thelynores fedrus; mae peth o'i gwaith barddol ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Bu ei llyfr llawysgrif, a gynhwysai ei chyfansoddiadau barddol ei hun, ym meddiant Gutyn Peris (Griffith Williams, 1769-1838) a chan mai mewn inc coch yr ysgrifennwyd ynddo gelwid ef 'Y Llyfr Coch'. Dengys fod canu'r delyn cyn noswyllo yn ddefod ganddi a byddai'n anfon am yr holl deulu ynghyd â'r gweision a'r morwynion i ddod allan i ddawnsio i'w chyfeiliant.

Priododd pan oedd yn ugain oed gyda William Pritchard a oedd ddeugain mlynedd yn hŷn na hi, ac aeth i fyw i'r Parlwr, Penamnen, Dolwyddelan lle bu'n parhau gyda'r diddordebau a'r arferion a fabwysiadodd ym mro ei mebyd:

Mae tinc y delyn ar Glwt y Ddawns,  
Clywch Angharad yn tiwnio.



## Y Baledwyr

Yn sgîl y cysylltiadau masnachol a gwleidyddol rhwng Cymru a Lloegr o gyfnod y Tuduriaid ymlaen roedd dylanwadau Seisnig diwylliannol yn anorffod; yn eu plith y rheini ar farddoniaeth poblogaidd Cymru. O ganlyniad yn yr ail ganrif ar bymtheg deuai lluo o daflenni baledi i Gymru o argraffdai yn Lloegr ac erbyn y ddeunawfed ganrif argreffid rhai cannoedd gan weisg Cymru ei hun. Un cyfrwng effeithiol i ledaenu'r dylanwad Seisnig hwn ymhlith y Cymry oedd dull masnachu'r porthmyn er bod yn rhaid pwysleisio nad hwn oedd yr unig gyfrwng. Y gwir yw fod llawer o fynd a dod o du'r Cymru i Loegr – milwyr, morwyr, myfyrwyr, merched gweini, crefftwyr a llafurwyr. Barn llawer o'r haneswyr a ymchwiliodd i'r pwnc yw nad oedd perthynas rhwng canu ffasiynol y baledwyr a'r awen gywir, a bod yr hen draddodiad barddol Cymreig wedi ei golli. Rhaid cofio bod llawer o faledwyr y ddeunawfed ganrif yn gyfoeswyr â Goronwy Owen, Ieuan Fardd a Michael Prichard o Lanllyfni ond prin iawn oedd eu tebyg hwy, a go brin y gwelid ceinder safon eu dawn hwy yng ngwaith y baledwyr pen ffair.

Dechreuodd yr adfywiad ym myd barddas yn Arfon yn ystod blynyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif a nodir Dafydd Ddu Eryri (David Thomas 1759-1822) o'r Waunfawr fel bardd amlycaf y cyfnod.

Yn ystod oes aur yr hen faledwyr, sef y ddeunawfed ganrif, cawn mai digon prin oedd Arfon yn ei baledwyr i gymharu â rhannau eraill o ogledd Cymru, ond gall Dyffryn Nantlle, ac yn arbennig plwyf Llanllyfni, ymfalchïo mewn pedwar baledwr sydd â'u gwaith yn argraffedig mewn mân bamffledi wyth tudalen yn cynnwys un, dwy neu dair o gerddi.

Thomas Roberts o Dŷ'n y weiglodd yw'r amlycaf ac argraffwyd ei waith gan Stafford Prys, Amwythig; John Rowland, Y Bala; Evan Powell, Caerfyrddin; Rhys Jones, Caerfyrddin a Thomas Huxley, Caerleon. Ceir ambell fanylyn ynglŷn â'r awduron ar wyneb-ddalen llawer o faledi'r ddeunawfed ganrif. Rhydd Thomas Roberts ddyddiad ei enedigaeth yn dilyn teitl *Dwy o Gerddi Ystyriaethol*. 'Argraphwyd yn y Mwythig, tros Thomas Roberts a fedyddiwyd y Mehefin, 5 dydd 1726 yn Llanllyfni'. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cofnod canlynol a geir yng Nghoslyfr Plwyf Llanllyfni am y flwyddyn 1726. 'Thomas fab Robt Ellis ac Al[i]ce i wraig a fedyddiwyd y 5 o fehefin.' Mewn baled arall cawn ddwy ffaith ychwanegol, sef bod gan Thomas Roberts frawd o'r enw William a'i fod weithiau yn defnyddio'r ffugenw Tom Arfon. 'Tomarfon ai Cant Brawd Wil o'r tŷ yn y werglodd o Lanllyfni'. Yn y pamffledyn hwn o wyth tudalen a argraffwyd yn Amwythig 'dros Thomas Roberts, o blwy yr Bendro sy yn byw yng ngwlad y wandro' dan y prif deitl *Dwy o Gerddi Newyddion*, ceir dwy faled. Teitl y faled gyntaf yw 'Coffadwriaith am Angeu neu farnad Richard Griffudd o Plwyf

Llanedwan yn Sir-Fôn gwr Parchus mewn Cymariaith gida phob sort o ddynion a chydig o fawl ir Dafarn ai Gollyngodd o allan gefn y nos iw foddî. Thomas Roberts yw awdur y faled gyntaf. Gwaith Hugh Hughes yw'r ail faled, sef 'Cerdd ar ddull ymddiddan rhwng yr Angeu a'r Pechadur amharodol i ymadael o'r byd Presenol hwn'. Mae'r faled gyntaf i'w chanu ar yr alaw 'Loath to Depart' a'r ail ar 'Crimson Velvet'.

Mae cerdd Thomas Roberts yn adrodd hanes trychineb a ddigwyddodd yng Nghulfor Menai pan foddodd Richard Griffith tra'n dychwelyd o dafarn yn y Felinheli i Feol-y-don yn nhrymder nos. Dyma'r math o faledi yr ysai'r werin am eu prynu; hanesion am drychinebau, llofruddiaethau a brwydrau. Y baledwyr oedd newyddiadurwyr yr oes ac adroddodd Thomas Roberts yr hanes am ddiwedd trist Richard Griffith yn rhagfarnllyd a di-flewyn-ar-dafod gan osod y bai am y ddamwain yn gyfan gwbl ar ysgwyddau'r tafarnwr 'ai Gollyngodd o allan gefn y nos i'w foddî'. Yn ogystal â bod yn ddarlledwr newyddion llanwai'r hen faledwyr hefyd gadair y barnwr a'r rheithgor!

Y Dafarn ydi demel belial  
Cymanfa Diawl a llys y Cythrel  
Lle tyra fil o feddwon anllad,  
I gyd tynu ar Bytteiniad.

Daw'r dafarn dan y lach eto gan Thomas Roberts mewn cerdd sy'n dwyn y teitl 'Cerdd o ymddiddan rhwng yr Eglwys a'r Tafarn'. Y dafarn sy'n dechrau'r ymgom a'r Eglwys yn ateb, gan ddilyn y patrwm hwn am chwech ar hugain o benillion:

- D. Dydd da fo i'r Eglwys ber lwys burlan  
Priod Iesu Grist ei hunan;  
E. Dydd da fo i titheu'r Dafarn diffaith,  
Yr un Gwr a'n gwnaeth ni a'r unwaith

ac ymlaen fesul pennill:

- E. Mae'r llofrudd, lleidr, godinebwr,  
Yn y Llan o flaen Pregethwr,  
Pob un o rhain yn darllain Llyfrau,  
Meddylit ti mae sanctaidd seintiau  
D. Mawr a rhygryf ydyw'r rhagrith,  
Yn heiddu ar falldod farwol felldith;  
Yn y Deml, wyn diniwaid,  
Yn y Dafarn, Du lu diawlaid.

Eglwyswr rhonc oedd Thomas Roberts yn ôl pob tebyg, a'r Eglwys a gafodd y gair olaf yn yr ymryson hwn a gyfansoddwyd ar ffurf baled ganddo. Daw ei ymlyniad a'i ffyddlondeb i'r Eglwys sefydledig i'r amlwg hefyd mewn cerdd a luniwyd ganddo yn erbyn anghydfuriaeth. Dyma fel y mae'n ei chyflwyno: 'Anogaeth yn erbyn Twyll a Rhagrith y Methodistiaid wedi ei chymmyrd o amryw fannau o'r Ysgrythyr. Cân i'w chanu ar y Mesur a elwir King's Farwell, neu Ymadawiad y Brenin,' a sicheir pawb ar ddiwedd y gerdd mai 'Aelodau cywir Eglwys Loegr a'i cant'. Argraffwyd y pamffledyn iddo gan Thomas Durston o'r Amwythig.

Mae'n debyg fod llawer o gystadlu brwd rhwng y baledwyr a chodai hyn eiddigedd yn enwedig os oedd amheuaeth ynglŷn ag awduraeth. Ymddangosodd cyhuddiad yn erbyn Thomas Roberts mewn pamffledyn o bedair baled a gyhoeddwyd yn Amwythig dros William Jones dan y teitl *Pedair o Gerddi Digri a Da ich dyfyr Hir Nos Gaua*: 'Y mae un William Jones gwerthwr baledi yn cyhuddo Thomas Roberts o "beiretio" rhai o'i faledi'. Mae'n wir dweud nad dyma'r unig dro i William Jones achwyn a chwyno ei fod wedi cael cam, ond mae Thomas Roberts yr un mor barod i wadu'r cyhuddiad enllibus fel y gwelir yn y datganiad hwn a ymddangosodd yn 1751: 'Hyn ydwyf fi yn hysspyssu ichwi fôd y Bedlemod yn codi celwydd a Thomas Roberts o Lanllyfni o achos ei fod ef yn gwneud y goreu o'i amser a hwn a glowoedd y Prydydd ac y Hysspyssodd i'r gwledydd'. Mae hyn yn tystio i'r elyniaeth gystadleuol a fodolai rhwng ambell faledwr.

Nid yw gwaith William Roberts mor doreithiog ag eiddo ei frawd Thomas, a rhestrodd J.H. Davies dair o faledi o'i waith er nad oes dim i gadarnhau mai gwaith y baledwr o Lanllyfni ynteu rhyw William Roberts arall sydd yma.

Un arall o faledwyr plwyf Llanllyfni oedd Hugh Roberts y teiliwr; awdur cerdd sy'n dwyn y teitl 'Cerdd yn adrodd Cyflwr yr Enaid anychweledig yn Uffern: Yw chanu ar Grimson Felfed'. Yn ei *Bibliography of Welsh Ballads* mae J.H. Davies yn priodoli dwy o'r cerddi a ymddangosodd dan y teitl 'Tair o Gerddi Newyddion' i Hugh Roberts. Dyma'r cyflwyniad:

Yn Gyntaf, Cerdd ar ddull ymddiddan rhwng yr Arch Goch a'r Eryr, bob yn ail penill, fel ag y calun. A. am Arch, ag E am Eryr, ar leave Land; neu adel Tir. Yn Ail, Cerdd ar ddull ymddiddan rhwng dau hen gyfaill oedd yn cario Yd i'r Mor un ar y Tir, ar llall ar y Mor, ag fel y maent yn cyttuno ai gilidd mewn amriw o weithredoedd fel ag y canlun am eu henwau, Wiliam ag Elis, E. am Elis, W. am Wiliam, ar faldod Dolgellau. Yn Drydydd, Cerdd o hanes yr Hela dirgri y fu yn Rheffynnon. Ar farnad yr Heliwr. Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys tros Thomas Roberts, 1758. (Price one Penny).

Yn dilyn mae troednodiad gan J.H. Davies fel a ganlyn:

(8pp (1) and (2) by Hugh Roberts of Llanllyfni, (3) is not printed in the copy seen by me, but as the last page is blank, it may have been inserted in other copies. This ballad is unique as to typography, as it is printed partly in black ink and partly in red ink. The word “Cerddi” and the imprint on the title page are in red ink, the rest of the title page is in black.

Mae’n amlwg o ddarllen hyn fod J.H. Davies yn argyhoeddedig mai’r ddwy gerdd gyntaf yn unig oedd piau Hugh Roberts Llanllyfni, ond nid yw Myrddin Fardd o’r un farn. Yn ei gasgliad gwerthfawr o faledi a restrodd yn *Y Traethodydd* rhwng y blynyddoedd 1886 a 1892 mae’n dweud yn bendant mai ‘Hugh Roberts o Lanllyfni’ yw awdur y tair.

Dyma rai o gynhyrchion Hugh Roberts allan o bamffledyn wyth tudalen sy’n dwyn y teitl *Dwy o Gerddi Newyddion* a argraffwyd yng Nghaerleon gan Thomas Huxley yn agos i Borth y Dwyrain’.

1. “Annerch Hugh Roberts i Thomas Edwards, y Prydydd, yn ei Drwblaeth yn Llaw ei Feistr-Tir”.
2. “Cerdd o Hanes Tafarn-Wraig a hapnodd fod yn Fysgrell yn Achos Cimmwch...”

Cenid y faled gyntaf ar y dôn ‘Gwêl yr Adeilad’ a’r ail ar ‘Farwnad yr Heliwr’ ac maent yn enghreifftiau sy’n dangos amryfal ddawn yr hen deiliwr o ganu yn y lleddf yn ogystal ag yn y llon, fel bo’r angen.

Er nad oes dim yn y gerdd i gadarnhau hyn, mae Gwallter Llyfni yn datgan mai’r ‘Thomas Edwards Prydydd’ y sonnir amdano yw Twm o’r Nant, ac o dderbyn hynny mae’n debyg mai sôn y mae’r awdur am helyntion yr anterliwtiwr cyn iddo symud i fyw i dde Cymru gan weithio yn Abermarlais a mannau eraill. Mae’r flwyddyn 1767 wedi ei nodi ar y copi o’r faled a welais yng nghasgliad Thomas Shankland ym Mangor.

Os gallwn gymryd y gerdd hon fel adlewyrchiad o gymeriad Hugh Roberts, yna mae’n rhaid derbyn ei fod yn berchen ar ffydd ddiffuant ac yn tosturio dros gyflwr trallodus ei gyfaill. Mae’r ail gerdd yn y pamffledyn i’r gwrthwyneb yn dra doniol ac yn gignoeth ddisgrifiadol ar brydiau tra’n rhoi hanes tafarnwraig yn cael profiad poenus mewn rhan go dyner o’i chorff!

...Am wreigan wych hynod, fy yn cadw Tŷ Diod,  
Ei Chwrrw hi a’i Bragod oedd barod a’i Bîr;  
Daeth hên Bysgodwr, Broliwr brych,



Dan alw am Gwrw yn waeth nag Ych...  
Ag ar ei Gefn 'roedd anferth Gŵd  
Yn llawn Cymhychied brathied brŵd...  
Un o'r Morwynion union aeu,  
Cowire Gwledd 'rol cyweirio'r Gwlau,  
A'r Potie ar Golch i Din y Caeu...

Wedi cwblhau'r gwaith hwn a arferai fod yn orchwyl cwbl hanfodol mewn tafarn a thŷ cyn dyfodiad toiledau *en suite*, fe afaelodd y forwyn yn y cimychiaid a'u gosod fesul un yn y pot gwag. Gosododd y forwyn y pot o dan fainc y casgenni yn y seler, heb feddwl nwy amdanynt, ond toc daeth nifer o deithwyr i'r tŷ ac yn y cyfamser cawn fod y dafarnwraig mewn tipyn o helbul yn ceisio ei gorau i ddod o hyd i dŷ bach a hynny ar frys. Wrth gwrs yr oedd y cyfleuster y chwiliai'n eiddgar amdano yn y seler yn llawn cimychiaid, ond wyddai hi ddim am hynny, ac yn y man:

Pan gafodd hi Gyfle i'r Seler hi rede,  
Rhoe'r Pott rhwng ei Choese lle gwyre hi ar gais;  
Ond un o'r Cymhychiad a droes ar ei harffed,  
Fe melodd yn galed yn ffowsed ei Ffais:

Daeth y forwyn o rywle ac anfonodd bawb allan yn ddiseremoni, a phan ganfu beth oedd yn bod aeth allan i gyrchu'r meddyg, ond wrth iddo wyro i archwilio gafaelodd y cimwch yn sydyn yn ei drwyn; yr oedd y ddau yn awr yng nghrafanc y cimwch. Y forwyn a ddaeth i'r adwy unwaith yn rhagor gan fynd at gymydog am gyngor a daeth yn ôl i'r dafarn i mofyn gweill gig:

A gyr di honno, doed a ddel,  
Dan Wraidd ei Gynffon yn ddi-gel,  
Daw y wraig a'r Gŵr mor siwr o'r sêl,  
O'r Gafel a'r Gofid.

Ac felly y llwyddodd y forwyn i ryddhau'r ddau o grafanc y cimwch, ac i ffwrdd â'r meddyg gan rwbio'i drwyn, a'r wraig i'r 'Gwely yn un Gowled'.

Mae enw Harri Owen yn ymddangos ar chwe pamffledyn yn cynnwys deuddeg baled a argraffwyd gan Dafydd Jones, Trefriw, rhwng y blynyddoedd 1778 a 1785, a'r cyfan yn dynodi mai gwerthu baledi a wnâi yn hytrach na'u cyfansoddi. Mae prawf o hyn mewn englyn a gyhoeddwyd mewn pamffledyn dwy faled a argraffwyd gan Dafydd Jones, Trefriw, yn 1785. '*BALAD NEWYDD yn Cynnwys dwy o Gerddi*' yw'r pennawd a'r faled gyntaf yw 'Ymddiddan rhwng Susan a Wm. wedi ei diwygio ai chwanegu o amryw eirieu a Phenhillion' ac yn dilyn daw'r hysbyseb sy'n cynnwys enw'r gwerthwr:

Hanes Susan lân y leni, foddus  
Na fydded neb hebddi,  
Tyrrwch yn nês at Harri  
Mae hon i chael am Ddime i chwi.

Nid oes dim yn y pamffledi hyn i awgrymu mai o Llanllyfni y deuai Harri Owen. Ond, mewn pamffledyn arall dan y teitl *Dwy o Gerddi Newyddion* a argraffwyd yn Amwythig ar ran Thomas Roberts yn 1758, y gyntaf 'Cerdd yn Erbyn Tyngu' o waith Jonathan Hughes a'r ail 'Dechrau Cerdd o hanes Gwr Ifaingc a gollodd ei Glos wrth garu Merch o Lanhwrst oedd yn Reffynnon ar Leave Land', ceir mai 'H.O. o Llanllyfni ai Cant'. Mae'n hawdd cael ein temtio i gredu mai Harri Owen yw'r H.O. yma, ond gall y llythyren H. sefyll am Hugh neu Humphrey hefyd. Peth arall, rhaid cofio mai o gwmpas 1780 yr oedd Harry Owen yn ei flodau tra bod H.O. wedi argraffu ei faled yn 1758, ddwy flynedd ar hugain cyn hynny. Mae un peth, fodd bynnag, yn bendant; gallwn gyda sicrwydd ychwanegu enw H.O. at dalwrn baledwyr plwyf Llanllyfni.

Cyrchaist y ffeiriau pellaf  
I werthu dy gerddi maith,  
Dyhidlaist win dy awen  
I lestru'r dafarn laith.

Daw'r pennill uchod o lawysgrif y bûm yn ei darllen ym Mangor. Nid oes enw awdur wrtho a chynhwysais ef am ei fod yn cyfleu, mewn pedair llinell, hynt y baledwr.

### **Y Beirdd Gwerin**

Soniais yn gynharach am yr adfywiad a fu ym myd barddas yn Arfon yn ystod blynyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif gan enwi Dafydd Ddu Eryri (David Thomas, 1759-1822) o'r Waunfawr fel bardd amlycaf y cyfnod. Ysgrifennodd gân yfed yn ystod gaeaf 1783 i wahodd beirdd Arfon i gyfarfod yn y 'Betws Bach', sef y Betws Inn ym Metws Garmon, ar yr ail o Chwefror, sef noson Gŵyl Fair y Canhwyllau. Y cyfarfod hwn oedd y cyntaf o'r cyfarfodydd a oedd yn sylfaen i sefydlu Cymdeithas Lenyddol Beirdd Arfon, sef yr Eryron; cymdeithas a fu'n cyfarfod ym Metws Garmon, ac yna yn y Bontnewydd a Chaernarfon i ddarllen, trafod a beirniadu barddoniaeth. Mae'n ddiddorol sylwi bod Dafydd Ddu wedi dewis y noson arbennig hon i wahodd y beirdd 'i'r Betws Bach i botio'. Cysylltir y traddodiad gwerin a elwid 'gwaseila' â Gŵyl Fair y Canhwyllau, pan gerddai nifer o loddestwyr o amgylch y wlad gan aros wrth ddrysau cartrefi eu cymdogion i gynnal math o ymryson ar gân gyda'r

teulu oddi mewn. Dyma'r rhan gyntaf o'r ddefod, sef y 'canu yn drws'. Prif nod yr ymwelwyr oedd cael mynediad i'r tŷ (lle gwyddent fod gwirod ar gael) gan ddymuno llwyddiant i'r cnydau a'r anifeiliaid yn ystod y flwyddyn honno. Wedi cael mynediad canai'r ymwelwyr 'garol gadair' i gyfarch merch ifanc a eisteddai ar gadair yng nghanol y gegin gyda phlentyn yn ei breichiau i gynrychioli Mair a'r baban Iesu. Cyn ymadael cenid carol ddiolch gan y cantorion.

Gallwn gyda sicrwydd gysylltu enw William Bifan y Gadlys (1730-93) â'r hen draddodiad hwn; yr oedd wedi ysgrifennu o leiaf dair o garolau Gŵyl Fair ac maent heddiw ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Teitl y llawysgrif yw 'Llyfr Amruwawg – Cerdd Godidogol Waith Prydyddion Cymry o Gasgliad William Jones Dydd Pured Mair Flwyddyn 1767' (LIGC 9168). Casglwyd y cerddi sydd ynddi gan William Jones a chyfeirir ato fel 'Wiliam Sion enwog' yn un ohonynt. Yn ôl llawysgrifen ddiweddarach sydd ar y tudalennau gwelir bod un o gyn-berchenogion y llyfr, Thomas Evans, Ysgubor Wen, Caernarfon, wedi ei werthu am chwe cheiniog i Robert Griffith, Pen-y-cefn ger Caethro, yn dilyn Gŵyl Fair 1787. Robert Griffith oedd athro'r gân yn Llanbeblig, ac yn gerddor amlwg yn Arfon cyn i Ffowc Bach y Cantwr ddod i fri.

Ganwyd William Bifan yn 1730 yn fab i Evan Williams, Bodaden, ac er mai 'William Evans' a dorwyd ar garreg ei fedd, fel William Bifan yr adwaenid ef ar lafar gwlad.

Un o'r penillion o waith William Bifan a orosodd oedd hwnnw a oedd yn ymwneud â digwyddiad cysylltiedig â'r arferiad o gynnal gwasanaeth plygain yn eglwys Llanwnda ar fore Nadolig. Ar y Nadolig arbennig hwn trefnwyd bod aelodau o eglwys Llanbeblig i gymryd rhan yn y gwasanaeth. Am ryw reswm nid oedd clochydd Llanbeblig yn fodlon iawn i'w gyd-blwyfolion gael mynd ac aeth ati i gynllunio rhwystr. Ar y ffordd fawr sy'n arwain o Gaernarfon i Bwllheli mae cyffordd a adwaenir fel Ffrwd Cae Du rhwng y Bontnewydd a Llanwnda, ac yn ystod y dyddiau dan sylw rhedai'r ffrwd ar draws y ffordd gyda phompren i gerddwyr ei chroesi. Gwyddai'r hen glochydd y byddai'n rhaid i bobl Llanbeblig groesi'r bompren yn blygeiniol ar fore'r gwasanaeth ac aeth yno rhag blaen gan droi'r bompren a'i phen i lawr, gyda'r canlyniad o daflu'r bobl i'r dŵr a'r llaid islaw. Pan glywodd William Bifan am y cynllwyn aeth ati i ddychanu'r hen glochydd fel hyn:

Hen glochydd Llanbeblig  
Wnaeth dro melltigedig,  
Troi'r bompren o chwithig,  
Aniddig y nôd;

Gan ddisgwyl yn drwstan  
Rhôl llawer eu pawan,  
Ar ganllaw y bompran  
A chwympo yn gelain i'r gwaelod.

Yr oedd bryd William Bifan ar gyhoeddi ei waith, a dywedir iddo ganu llawer carol, pill a rhai emynau, gan eu hysgrifennu mewn dau lyfr. Bu'r llyfrau hyn ym meddiant y teulu am flynyddoedd ond fe'u benthyciwyd gan gydnabod, ac fel mae'n digwydd yn llawer rhy aml, aethant ar goll. Bu farw William Bifan ym mis Ebrill 1793 yn dair a thrigain oed a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llanwnda.

Robert Ellis oedd clochydd Llanllyfni am ddeugain a thair o flynyddoedd, o 1829 hyd at ei farwolaeth yn 1872. Roedd yn fardd gwerin rhagorol, ac yn awdur nifer o gerddi ysgafn, cerddi gofyn, marwnadau, emynau a charolau a chyhoeddwyd ei gynhyrchion mewn cyfrol 96 tudalen dan y teitl *Lloffion Awen Llyfnwyr* yn 1852, a *Carolau Awen Llyfnwyr* yn 1883, un mlynedd ar ddeg wedi ei farw.

Daw nodweddion cymeriad Robert Ellis i'r amlwg yn rhai o'i gerddi ac meddai wrth anfon at William Jones y gof o Ben-y-groes am efail a phrocer:

Nid oedd yn bod am gwrw a bîr,  
A d'weyd y gwir mo'm garwach;  
Llawer pen neu sofran Sais,  
A foddais mewn cyfeddach  
Wrth fod mewn tafarn (eithaf teg),  
A chodi i'm ceg fel Cigydd;  
Os byddai'r aur, ond hawdd y trown',  
Yn leision cyn y glasddydd;  
Nid aeth y siot erioed yn sych,  
Lle byddai gwlych y Clochydd.

Ond nid bardd yn unig oedd Robert Ellis, roedd hefyd yn gerddor, a chan mai eglwyswr ydoedd, y garol oedd prif nodwedd ei dalent, a'r geni gwyrtiol oedd symbyliad ffrwyth ei gynhyrchion. Cyhoeddodd bedair carol ar bymtheg yn ei *Lloffion*, un ar bymtheg o garolau Plygain, un garol Nadolig a dwy garol Dydd Gŵyl y Pasg.

Roedd carolau Robert Ellis fel y gweddill o garolau'r cyfnod yn gynhyrchion maith a dylid cofio hefyd cyn dyfodiad yr organ, fod gan nifer o eglwysi eu cerddorfeydd bychain eu hunain yn cynnwys utgyrn, tabyrddau, pibellau a bas-feiol, ac arweinydd yr offerynwyr fel rheol fyddai'r clochydd.

Roedd rhai o garolau Robert Ellis yn parhau ar gof ambell un o drigolion



Llanllyfni hyd at o leiaf bedwardegau'r ganrif bresennol. Canodd John Owen y Fort (hen dafarn sydd heddiw yn dŷ annedd) ddwy o'r carolau hyn yn ddigyfeiliant yn eglwys y plwyf Nadolig 1945.

Roedd y corau aelwyd hefyd yn rhan o draddodiad a oedd mewn bri yn yr ardal hon yn ystod y blynyddoedd a fu. Cyfeiriwyd eisoes at yr arferiad oedd gan gantorion yr eglwys plwyf i ymweld â phlwyfi cyfagos i ymuno yn y gwasanaeth Plygain, ac ymddengys fod hyn yn arferiad hefyd gan y corau aelwyd. Yr oedd maint y teuluoedd yn yr hen amser ar gyfartaledd yn fwy nag ydynt heddiw ac felly roedd yn haws ffurfio partïon o'r fath. Mae'r diweddar Barchedig David Griffith, a oedd yn enedigol o'r Bontnewydd ger Caernarfon, yn cofnodi yn ei ddyddiadur ymweliad gan barti o Lanllyfni a ganodd yn eglwys Llanwnda ar y degfed ar hugain o Ragfyr 1860. Mae hyn yn brawf ei bod yn hen arferiad gan gantorion Lanllyfni deithio i blwyfi eraill ar y nos Sul ar ôl y Nadolig i ailganu carolau'r Plygain, a dywedir y llogid coits ambell waith i'w cludo. Diau fod yr hen glochdydd cerddgar yn flaenllaw iawn yn y gweithgareddau hyn.

### **Yr Hen Gantor**

Anfarwolwyd Gwallter Llyfni, sef Walter Sylvanus Jones (1883-1932) gan R. Williams Parry yn ei gerdd 'Yr Hen Gantor' a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Cerddi'r Gaef*. Ganed Gwallter Llyfni ym Mhant-glas yn 1883 ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Lanllyfni cyn symud i fyw i Ben-y-groes yn 1930, ddwy flynedd cyn ei farw. Daeth i'r amlwg yn gyntaf fel canwr; byddai ef a'i frawd Dafydd yn cystadlu mewn eisteddfodau ar ganu deuaud: bariton oedd Gwallter a Dafydd yn denor. Dechreuodd y dirywiad yn ei iechyd yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Mawr ac er na ddeuthum ar draws unrhyw gyfeiriad gan Gwallter ei hun, nac ychwaith gan yr un o aelodau'r teulu y bŵm yn eu holi ynglŷn â'i gyfnod yn y fyddin, mae'n edrych yn fwy na thebyg mai effaith y rhyfel oedd i gyfrif am y darfodedigaeth y bu'n dioddef ohono am weddill ei oes.

Yn ôl R. Williams Parry nodweddiad amlycaf Gwallter oedd ei ffyddlondeb i'w gyfeillion a'i hunan-dyb diniwed ac ategir hyn gan y sawl a oedd yn ei gofio. Gwisgai i gydymffurfio â delwedd y critig cerdd y ceisiai ei efelychu; yr het fawr a'r fantell, a dyna a adawodd yr argraff 'fawreddog' ohono ar gof to ifanc y dydd. Cofiai Mathonwy Hughes am Gwallter fel un o'r cymeriadau gwreiddiol hynny nad oedd modd dyfod oddi wrthynt ac a oedd yn athrylith ar lawer cyfrif. Roedd ganddo ei chwaeth a'i farn ei hun am bethau a byddai'n dangos cryn graffer llenyddol yn aml. Ni fyddai byth yn peidio â datgan ei farn; nid oedd hynny'n plesio pawb wrth gwrs a daw ei ffraethineb i'r amlwg mewn llythyr at Carneddog wrth iddynt drafod Eisteddfod y Cymrodyr a oedd i'w chynnal ym Meddgelert. Gwallter oedd y beirniad cerdd

ac mewn ateb i Carneddog ynglŷn â chadarnhau'r cyhoeddiad meddai: 'Cefais restr o'r testunau... ac yn wir mae yn rhestr dda iawn ond ei bod braidd yn hir. Bydd yno waith mawr, ac anodd fydd gorffen a chyrraedd y Carneddi cyn i'r ceiliog ganu, ond cei weld y bydd fy meirniadaethau i fel cathod Isle of Man'.

Yr oedd yn gerddor, bardd a hanesydd lleol brwdfrydig ac ymddangosodd llawer o'i ysgrifau yn *Y Dinesydd*, *Yr Haul*, *Y Llan*, *Y Brython*, *Y Genedl* a'r *Cerddor Newydd*. Bu colofnau cerddorol ganddo yn yr *Herald* a'r *Dinesydd* wedi eu hysgrifennu dan y ffugenwau 'Figaro' a 'Largo'.

Tra'n chwilota i hanes Dyffryn Nantlle daeth ar draws llyfr Robert Ellis y Clochydd, sef *Lloffion Awen Llyfnwy*, ac aeth ati i astudio ei gynhyrchion ac ymchwilio i hanes ei fywyd. Buan iawn y daeth Gwallter yn arbenigwr ar Robert Ellis. Câi aml wahoddiad i draddodi darlith arno gan wahanol gymdeithasau ac ymddangosodd erthygl o'i eiddo arno yn *Y Llenor* yn y flwyddyn 1930. Cyffelybai Gwallter ei hun i raddau helaeth i Robert Ellis; llwyddodd i ddarganfod llawer o'r hen alawon a ddefnyddid gan yr hen glochydd i ddatgan ei garolau a chanai ambell un ohonynt yn ystod ei ddarlithoedd gan ychwanegu at flas y testun.

Apelïai hen gerddi Cymreig Robert Ellis at Gwallter yn fawr ac ymfalchïai yn y ffaith fod cyfrol o waith y clochydd ar gadw rhwng cloriau, ond gresynai fod cymaint o enghreifftiau o'r hen gerddi traddodiadol Cymreig wedi mynd ar ddifancoll. Meddai, 'Mae amryw gasgliadau o hen gerddi ar gael, ond tuedd y casgliadau hyn ydyw bod yn rhy dduwiol, ac ni roddant i ni arweddau eraill sydd yn nodweddu ein Cenedl'.

Anfonodd Gwallter rai caneuon at John Lloyd Williams ac fe'u cyhoeddwyd yn *Canu Gwerin: Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* gyda'r cyfeiriad, 'Walter Sylvanus Jones'. Yn ôl Gwallter un o ganeuon mwyaf poblogaidd Llanllyfni yn ystod hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf oedd 'Yr Eneth Glaf' a deuthum ar draws copi o'r geiriau ymysg ei bapurau ym Mangor. Yr oedd yn fersiwn gwahanol i'r un a gyhoeddwyd yn *Canu'r Cymry*, ac ym marn Dr Meredydd Evans, 'yn sicr, mae fersiwn y Gwallter yn gyflawn'.

[Gweler ymhellach y nodyn gan Dr Meredydd Evans sy'n dilyn].

# CERDD ‘YR ENETH GLAF’

*Meredydd Evans*

---

Hyd y gwyddom argraffwyd ‘Yr Eneth Glaf’ am y tro cyntaf yn *Canu’r Cymry* (1984), a phan luniwyd y nodyn cefndir ar ei chyfer ni wyddem am ddiddordeb Dewi Jones (y cyhoeddir darlith o’i eiddo yn y rhifyn hwn) yn nhraddodiadau gwerin Llanllyfni a’r cyffiniau.

Ar 12 Rhagfyr, 1986, daeth llythyr oddi wrtho yn ymateb i ysgrif gennyf a gyhoeddwyd yn *Y Casglur* a thua’i ddiwedd cyfeiriodd at gerdd a gododd o lawysgrif gan Gwallter Llyfni, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor. Ei phennawd: ‘Yr Eneth Glaf’.

Sgrifennais air ato gyda’r troad. A fyddai cystal ag anfon copi ohoni inni? Daeth hwnnw ar fyr dro; anrheg Nadolig ardderchog.

Nid oes angen sôn yma am Gwallter ei hun gan fod Dewi Jones yn ymdrin ag o yn ei ddarlith, ond dyma’r gerdd fel y codwyd hi o’i lawysgrif. Sylwer iddo nodi ei bod yn boblogaidd ym mhlwyf Llanllyfni ‘ddeugain a hanner can mlynedd yn ol’. Gosodiad amwys fel y saif: ai 90 ynteu 40-50 mlynedd? Beth bynnag am hynny, gan fod Dewi yn amcangyfrif cyfnod sgwennu’r llawysgrif fel 1920-32 gellir ei lleoli yng nghyfnod Fictoria – fwy neu lai!

Yn sicr fe berthyn iddi nodweddion y ‘gân Fictoriaidd’ (gweler Rhagair E.G. Millward i’w gyfrol gampus *Ceinion y Gân*, Llandysul, 1983) ond mwy arwyddocaol na hynny yw’r ffaith fod i bedwar pennill y gerdd unoliaeth nas ceir yn y geiriau a gyhoeddwyd gennym yn *Canu’r Cymry*. Sylwer yn arbennig fel yr adleisir y tri phennill cyntaf yn y pennill clo. Onid yw’n dra thebygol mai dyma ffurf *wreiddiol* y gerdd?

Yr Eneth Glaf

(Un o ganeuon mwyaf poblogaidd Llanllyfni  
ddeugain a hanner can mlynedd yn ol)

Y mae’r haf yn hir yn dyfod,  
Meddai geneth fechan glaf,  
Pryd mae’r gwanwyn yma’i ddarfod,  
Pryd fy mam y daw yr haf?  
Dweud o hyd mae fy nghyfeillion,  
Dyna’r unig gysur gaf,  
“Cymer galon eneth dirion  
Mi fendi di pan ddaw yr haf”.

A oes arwydd fod o'n nesu,?  
Oes briallu hyd y pant,?  
A yw'r adar bach yn nythu  
Ym mieri gwylt y nant,?  
Dweud o hyd mae fy nghyfeillion,  
Dyna'r unig gysur gaf,  
"Cymer galon eneth dirion  
Mi fendi di pan ddaw yr haf".

Chlywodd neb mo'r gog eleni  
Ar hen dderw mawr y ddol,?  
Ond i honno ddechreu canu  
Haf sy'n gwenu ar ei hol,  
Dweud o hyd mae fy nghyfeillion,  
Dyna'r unig gysur gaf,  
"Cymer galon eneth dirion  
Mi fendi di pan ddaw yr haf".

Daeth yr haf a myrdd friallu,  
Daeth y gog i goed y ddol,  
Ond daeth angel gwyn i'w chyrchu  
Hi i wlad na ddaw yn ol.  
Ofer fu yr holl wenieithio,  
A'r proffwydo drodd yn gau,  
Ar ei beddrod yn blodeuo  
Heddiw gwelir blodau Mai.

# Mary Davies – *grande dame* yr alaw werin yng Nghymru

*Wyn Thomas*

---

Mary Davies, mae ar dafod – y. wlad  
Fel mêl wledd ddiddarfod;  
Mawr yw enw'n Mair hynod  
Enw glân i Walia'n glod.

Trefinfab

Bu Cymru'r 19eg ganrif yn gyndyn iawn i roi'r sylw dyladwy i gyfraniad gwragedd i fyd a thraddodiadau cerddorol y genedl. Wedi'r cyfan, hon oedd 'Hen Wlad fy Nhadau', gwlad y corau meibion, libart gyfoethog y 'Gwŷr wrth gerdd' a milltir sgwâr arwyr cerddorol fel Joseph Parry, R.S. Hughes, Llew Llwyfo a'u tebyg. Ac er gwaetha'r ffaith fod y wraig lenyddol (ym mherson rhai fel Angharad Llwyd, Charlotte Guest a Jane Williams 'Ysgafell') wedi hen ennill ei lle, roedd y wraig gerddorol (p'un ai'n berfformwraig neu'n gyfansoddwraig) yn beth dieithr i ni fel pobl. Anaml iawn y cysylltid enwau gwragedd â byd cerddoriaeth yr oes ac er cymaint fu ymdrechion rhai yn y cyfnod cynnar hwn, fe welir bod eu henwau wedi'u hesgeuluso bron yn gyfan gwbl o'r cyfrolau hanes a phob atgof am eu gweithgarwch wedi mynd i ddifancoll llwyr a hynny'n bennaf am mai dynion fu'n hawlio'r sylw blaenaf yn y maes ac mai dynion (gan amlaf) fu'n gyfrifol am groniclo hanes yr oes.

Fodd bynnag, ym mlynnyddoedd cynnar sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ddechrau'r ganrif bresennol, fe welwyd tro ar fyd a chyfraniad gwerthfawr tair gwraig allweddol bwysig yr adeg honno fu'n gyfrwng i osod nod a chyfeiriad pendant a ffrwyno brwdfrydedd heintus y sylfaenwyr cynnar. Ruth Herbert Lewis, Dora Herbert Jones a Mary Davies oedd y tair, ac er mai canolbwyntio ar gyfraniad eithriadol Mary Davies yw diben hyn o ysgrif, ni ellir esgeuluso'r cyswllt agos a'r cydweithio clòs fu rhyngddynt yn y blynyddoedd cynhyrchiol hynny. Yn wir, pan fu'r Athro J. Lloyd Williams yn crynhoi prif ddigwyddiadau'r Gymdeithas ar gyfer eu cyhoeddi yn y *Cylchgrawn* yng nghanol tridegau'r ganrif hon, dyma oedd byrdrwn ei neges:

Much of the success has been due to the enthusiasm and vision of a number of lady workers, collecting and publishing the songs, singing



them in public and organising the activities of the Society<sup>1</sup>

ac eto:

In view of the splendid services rendered to the Society ... by the ladies, it is difficult to understand why the men monopolised the membership of the Committee!<sup>2</sup>

Afraid yw dweud mai'r Botanegydd o'r Garn, yn ôl geiriau Dora Herbert Jones, oedd '*the grand old man of the movement*'<sup>3</sup> ond mae tystiolaeth amlwg yr ohebiaeth a'r dogfennau sydd wedi goroesi i'n cyfnod ni yn profi yn ddiamheuol fod Mary Davies wedi bod yn flaengar ac aroesol iawn mewn gwahanol agweddau ar fywyd y Gymdeithas ifanc; ei bod hi (yn anad neb arall) wedi dwyn o'i phrofiad fel cerddor ymarferol yn Llundain droad y ganrif ac wedi dylanwadu'n helaeth ar ogwydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, ac yn sgil hynny, wedi llwyddo i feithrin y wedd broffesiynol a oedd i'w gweld yn gymaint rhan o Gymdeithasau Canu Gwerin Lloegr ac Iwerddon a gwledydd eraill y dydd. Yn wir, oni bai amdani hi, mae'n dra thebygol y byddai Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, bryd hynny, wedi dilyn trywydd tra gwahanol.

\*\*\*

Un o Gymry-Llundain canol y 19eg ganrif oedd Mary Davies.<sup>4</sup> Hanai o deulu cerddorol, parchus a'i thad William Davies<sup>5</sup> 'Mynorydd' yn godwr canu ac yn un o selogion Capel Cymraeg Nassau Street yn Soho. Fe gofir amdano ef yn bennaf am ei waith fel cerflunydd ac yn enwedig am ei gofeb i'r Parchedig Thomas Charles a saif y tu allan i Gapel Tegid y Bala heddiw.

Drwy anogaeth barod Brinley Richards<sup>6</sup> ('Cerddor Towy') a chefnogaeth frwd John Thomas<sup>7</sup> ('Pencerdd Gwalia'), arweinwyr cerddorol amlycaf

---

<sup>1</sup> J. Lloyd Williams, 'The History of the Welsh Folksong Society', *Cylchgraun Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. III, Rhif 2 (1934), t. 89.

<sup>2</sup> *ibid.*, t. 93.

<sup>3</sup> Llsg. A.W.C. (Sain Ffagan) 1459/260. Sgript radio gan Dora Herbert Jones (ca. Medi 1958).

<sup>4</sup> Ganwyd Mary Davies ar 27 Chwefror 1855 yn Llundain, a bu farw ar 22 Mehefin 1930. Fe'i claddwyd ym mynwent Glanadda (Bangor).

<sup>5</sup> Brodor o Ferthyr a aeth i Lundain yn 16 oed i fwrw'i brentisiaeth fel cerflunydd oedd William Davies (1826-1901) 'Mynorydd'. Ymddiddorai mewn cerddoriaeth ac ysgrifennai'n gyson ar faterion oedd yn ymwneud â hanes cerddorion Cymreig Llundain yn *Y Cerddor a Kelt*.

<sup>6</sup> Henry Brinley Richards (1819-1885) - cyfansoddwr, beirniad, ac arweinydd. Cofir amdano'n bennaf am ei waith yn cyhoeddi *Songs of Wales* (Llundain, 1873) a ddaeth yn eithriadol boblogaidd ymhlith Cymry'r cyfnod.

<sup>7</sup> John Thomas (1826-1913) - telynor enwocaf Cymru'r ganrif ddiwethaf, ac a fu'n gefnogol iawn i weithgarwch cerddorol Llundain y dydd. Teithiodd i gyfandir Ewrop a Rwsia fel perfformiwr proffesiynol a lluniodd drefniannau lliwgar iawn ar gyfer y delyn bedal glasurol.

Cymry Llundain y dydd, fe gafodd Mary Davies yrfa led ddisglair fel cantores broffesiynol mewn cyd-destun cwbl glasurol. Ym myd yr Oratorio, y Cymdeithasau a'r Gwyliau Cerdd a'r Music Halls y daeth y llwyddiant hwnnw i'w rhan ac er iddi ddod i Gymru o bryd i'w gilydd i berfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol<sup>8</sup> neu ddigwyddiadau eraill o bwys (e.e. yng Ngŵyl Gerdd Harlech, 1873) rhaid pwysleisio nad oedd ganddi fawr ddim diddordeb ym myd yr alaw werin fel cynnyrch y traddodiadau brodorol Cymreig. Yn hytrach, gweithiau gan Berlioz, Gounod, Sterndale Bennett ac Arthur Sullivan a'u tebyg aethai â'i bryd. Roedd yr ymwybyddiaeth o Gymreictod, er hynny, yn rhan amlwg o'i magwraeth a'i chymeriad ac mae'n rhaid ei bod hi fel cantores wedi gallu uniaethu â'r trefniannau lu o geinciau cenedlaethol Cymreig gan Gerddor Towy a Phencerdd Gwalia a hynny er gwaetha'r ffaith mai efelychiadau a dynwarediadau digon amrwd oedd y rheini yn arddull boblogaidd Ewrop yr oes.

Prïodi William Cadwaladr Davies,<sup>9</sup> cofrestrwydd cyntaf Coleg y Gogledd yn 1888 a symud i fyw i gartref Pen-y-bryn (gyferbyn â phrif fynedfa hen goleg y Penrhyn Arms) ym Mangor fu'n gychwyn cyfnod newydd ym mywyd Mary Davies. Dyma fu'n doriad gwawr ar ei phrofiadau cerddorol ac er na fu'n weithgar ym myd yr alaw werin yn ystod ei harhosiad ym Mangor, fe adawodd bwrllwm Cymdeithas y Canorion a'r casglu cynnar ei ôl ar ei diddordebau am weddill ei hoes. Dyma sut yr adroddodd J. Lloyd Williams yr hanes yn *Y Cerddor*:

Ar ôl hir nychdod, bu farw Mr William Cadwaladr Davies ym 1905.

Gofynnwyd i mi drefnu'r rhan gerddorol o'r gwasanaeth claddu. Ysbaid wedyn, derbyniais lythyr diolch oddi wrth Mrs. Davies ynghyd â chasgliad llawysgrif o alawon Cymreig... a dyma ddechrau cysylltiad Mrs. Davies â'r mudiad Canu Gwerin Cymru.<sup>10</sup>

Yn Eisteddfod Llangollen 1858, fe gynigiwyd gwobr am y casgliad gorau o alawon Cymreig anghyhoeddedig. Enillwyd y gystadleuaeth gan Llewelyn Alaw a'r casgliad hwnnw fu'n sail i gasgliad Nicholas Bennett, *Alawon Fy*

<sup>8</sup> Llsg. L.I.G.C. 8032B (Llawysgrifau Emlyn Evans 32). Dywed Mary Davies mewn llythyr dyddiedig 24 Ionawr (1900) mai yn Eisteddfod yr Wyddgrug 1873 y cafodd y cyfle cyntaf i berfformio yn yr Ŵyl Genedlaethol.

<sup>9</sup> Brodor o Fangor oedd William Cadwaladr Davies (1849-1904) a fu'n newyddiadurwr yng Ngogledd Cymru am gyfnod cyn symud i Lundain i gynorthwyo Syr Hugh Owen gyda'r gwaith o sefydlu Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yn dilyn naw mlynedd lewyrchus fel Ysgrifennydd a Chofrestrwydd cyntaf Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor (o 1883 hyd at 1892) ymddiswyddodd o achos iechyd a daeth yn fargyfreithiwr yn yr Inner Temple yn Llundain.

<sup>10</sup> J. Lloyd Williams, 'Y Golofn Goffa: Mary Davies', *Y Cerddor*, Cyf. 1, Rhif 6, (Awst, 1930) t.181.

*Ngwlad*.<sup>11</sup> Bu'r ail gasgliad llawysgrifol<sup>12</sup> o alawon anghyhoeddedig o'r un gystadleuaeth yn Eisteddfod Llangollen ar grwydr am flynyddoedd ond fe'i prynwyd ef am swllt gan Mr L. Hartley, trafaeliwr o Fangor ac ar adeg priodas Cadwaladr a Mary Davies<sup>13</sup> mynnodd Mr Hartley rwymo'r llawysgrif honno mewn clawr coch a chael John Richards, Isalaw<sup>14</sup> i drefnu un o'r alawon ac i ysgrifennu'r trefniant yn y copi, a chyflwyno'r cyfan yn anrheg priodas iddynt. Mae'n rhaid bod y gyfrol hon (sydd bellach ar gael yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru) wedi bod ym meddiant Mary Davies ar hyd y blynyddoedd (o 1888 i 1905) heb fod ganddi fawr o syniad o'i gwerth na rhyw lawer o ddiddordeb yn ei chynnwys. A dyfynnu J. Lloyd Williams eto:

Nid oedd dim cydnabyddiaeth rhyngom cynt...<sup>15</sup>

Bu'r digwyddiad hwn yn gychwyn chwarter canrif o gyfeillgarwch gwerthfawr a chydweithio di-fwlch rhwng y ddau ac yn gyfrwng i roi'r hwb angenrheidiol ymlaen i sefydlu'r Gymdeithas a hynny ar seiliau cadarn. Cyn diwedd y ddegawd, roedd J. Lloyd Williams yn cyhoeddi nifer dethol o'r alawon o lawysgrif 'Orpheus' yn rhifyn cyntaf y *Cylchgrawn*.<sup>16</sup>

Troi yn ôl i Lundain wnaeth Mary Davies wedi marwolaeth ei gŵr ac er cymaint y pellter a'r anawsterau teithio rhwng cartref ei brawd, Arthur, yn Worthing<sup>17</sup> a Gogledd Cymru ni fu hyn yn rhwystr iddi o gwbl i gefnogi gweithgareddau'r byd canu gwerin yng Nghymru. Yn wir, gwelai J. Lloyd Williams fod manteision mawr o gael 'cenhadon' a chasglwyr canu gwerin ymhlith Cymry Llundain y dydd ac yn ôl maint a chysondeb yr ohebiaeth a fu rhyngddynt rhwng 1906 a 1929 roedd yn fodlon iawn ar y sefyllfa.

Roedd Mary Davies hithau yn sgil ei chysylltiadau o fewn cylchoedd mwyaf dylanwadol yr oes, yn llwyddo i ddwyn perswâd ar wleidyddion (fel

---

<sup>11</sup> Nicholas Bennett, *Alawon fy Ngwlad/The Lays of our Land* (Llundain, 1896).

<sup>12</sup> Gwaith 'Orpheus' oedd y casgliad hwn sy'n cynnwys 90 o alawon a rhai ohonynt wedi'u cyfansoddi ar gyfer y gystadleuaeth. Yn y llawysgrif hon y gwelir y copi ysgrifenedig cyntaf o 'Mae Hen Wlad Fy Nhadau'.

<sup>13</sup> Priodwyd Cadwaladr a Mary Davies yn Eglwys Tolmers Square, Hampstead Road, Llundain ar 22 Mawrth, 1888.

<sup>14</sup> John Richards (1843-1901). Cerddor o ardal Hirael (Bangor). Cyfansoddwr emyn-donau a gweithiau cysegredig ac arbenigwr ar nodiant y tonic sol-ffa.

<sup>15</sup> J. Lloyd Williams, 'Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru', *Y Cerddor*, Cyf. 3, Rhif VII, Gorffennaf 1933, t. 228.

<sup>16</sup> *Cylchgrawn CAGC*, Cyf. 1 (Bangor 1909).

<sup>17</sup> Roedd gan Mary Davies un chwaer (Dilys Lloyd Davies, 1857-1932) ac un brawd (Arthur Owen Davies, 1861-1936). Gweithiwr yng nghwmni yswiriant Lloyds yn Llundain oedd Arthur, a bu'n byw yn y brifddinas trwy gydol ei oes.

David Lloyd George a J. Herbert Lewis) a cherddorion (fel Alfred Perceval Graves a Lucy Broadwood) i gefnogi mudiad canu gwerin Cymru. Dwynt sylw 'rhyng-genedlaethol' i gyfoeth y traddodiad Cymreig oedd dymuniad Mary Davies hyd yn oed yn y blynyddoedd cynnar hyn; ennyn diddordeb a sêl a brwdfrydedd rhai oedd wedi hen gyfarwyddo â chynnyrch cerddorol gorau Llundain y dydd, ond a ddylai hefyd sylweddoli bod gan Gymru hithau draddodiadau cerddorol gwerthfawr. Yn hyn o beth, roedd gweledigaeth Mary Davies o gyraeddiadau'r Gymdeithas hon yn gymaint ehangach na gobeithion J. Lloyd Williams. Er cymaint ei ddawn a'i allu a'i arbenigrwydd ef, hi mae'n amlwg, fyddai'n dwyn 'y cerddorion eraill' hyn i gyswllt â'r Gymdeithas.

Wrth ysgrifennu at D. Emlyn Evans yn 1910 dyma oedd ei hapêl:

Mr [Frank] Kidson is a real enthusiast in folk song and is most ready to put all his remarkable library and expertise at the service of his friends in our Society. He must be brought in!<sup>18</sup>

Yn yr un modd, wrth ohebu â J. Lloyd Williams rhyw fis yn ddiweddarach, mae Mary Davies yn cydnabod y cyswllt agos fu rhyngddi a Lucy Broadwood, a hynny ers nifer o flynyddoedd.<sup>19</sup> Ond yr oedd ei hawydd i daflu'r rhwyd ymhellach ac ennyn cefnogaeth mawrion y Gymdeithas Alawon Gwerin yn Lloegr yr un mor amlwg beth amser yn ddiweddarach:

I am also going to meet Mr. Cecil Sharp shortly. I have now heard 2 of his lectures. He is certainly very much in touch with the field and though he makes very sweeping assertions, his style is very attractive. I do wish he could give a lecture in Bangor. It would be very successful, I feel sure.<sup>20</sup>

Heb anogaeth y rhain, mae'n dra thebygol mai Cymdeithas ddigon cyfyng a phlwyfol ei hapêl fyddai'r Gymdeithas hon oni bai i Mary Davies weld yn dda i'w dwyn i gefnogi'r achos. Roedd cael byw a bod yn Llundain, felly, yn talu ar ei ganfed.

Fel un o gasglyddion cynharaf alawon gwerin Cymru y cofir amdani yn bennaf – a dyma, mae'n siŵr, fu'n fodd i danio'r brwdfrydedd i geisio dod o hyd i alawon coll y traddodiad llafar yng Nghymru. Dyma hefyd lle y gwelir Mary Davies yn arloesi a dyma'r wedd ar ei phrysurdeb a fu'n gyfrwng i ddwyn Ruth Herbert Lewis, yn y man, i mewn i'r maes. Roedd y *No. 10 Wales Chronicle* wrth grynhoi prif ddigwyddiadau Cyfarfod Cyhoeddus y Gymdeithas yn 1910 wedi cyfeirio eisoes at y cyswllt agos rhwng Cymru a

<sup>18</sup> Llsg. Ll.G.C. 8032B, rhif 16 (Mary Davies at D. Emlyn Evans), dyddiedig 26.12.1910.

<sup>19</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 58), Mary Davies at J. Lloyd Williams.

<sup>20</sup> *ibid.*

darganfyddiad y *phonograph* gan Thomas Alva Edison:

In 1877... Sir William Preece (President of the Welsh Folk Song Society) was on a visit to the great inventor Edison, who in the course of conversation gave him an outline of his then latest idea which has since crystallised in the popular telephone. The idea of enabling the voice to annihilate space was startling. Sir William Preece turned to his friend and said:

‘Edison, If what you say is true, then the human voice can be reproduced’.

Edison made no reply. A month later on his return home, Sir William received from Edison the first gramophone ever seen in this country. It was this instrument suggested by a casual conversation between the Welsh and the American inventor that rendered it possible now to accurately record from the mouths of peasants the folk songs which only they knew.<sup>21</sup>

A dyna chwyldroi maes casglu alawon gwerin yn gyfan gwbl – nid yn unig yng Nghymru, ond ar gyfer rhai fel Bartók a Kodaly yn Hwngari ac eraill o'r tu hwnt. Rhoddodd Sir William Preece<sup>22</sup> *phonograph* yn rhodd i'r Gymdeithas yn 1909 ond byddai Mary Davies fel cerddor proffesiynol eisoes wedi cael profiad o ryfeddodau'r peiriant hwn gan fod canolfannau tebyg i'r Crystal Palace a Theatr Drury Lane wedi arfer recordio lleisiau cantorion amlwg y dydd. (Cwestiwn sy'n codi yw: a ymddangosodd llais Mary Davies erioed ar silindr *phonograph*? Os do, ymhle mae'r silindrau hynny heddiw?) Hyn, heb os, a barodd iddi fynd i'r afael â'r peiriant a'i roi ar waith yng Nghymru.

May 4th, 1911

Dear Dr Williams,

I got a record on the phonograph of the Mynd efo Deio i Dowyn [sic] and it struck me that there were one or two alterations in the old man's singing of it. I will add these and send them on to you later.<sup>24</sup>

---

<sup>21</sup> Llsg. Bangor 4761, t. 7.

<sup>22</sup> Syr William Preece (1834-1913), peiriannydd trydan o'r Bontnewydd ger Caernarfon a fu'n weithgar iawn yn natblygiadau cynnar y teleffon.

<sup>23</sup> Percy M. Scholes, 'Gramophone or Phonograph', *The Oxford Companion to Music* (London, 1955), tt. 418-19.

<sup>24</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 110), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 4.5.1911.



Yn raddol, fe dyfodd y pwysigrwydd o adnabod gwahanol fersiynau o'r un alaw ac arwyddocâd yr ystyriaethau cerddorol hyn. Yn yr un modd, fe ledodd poblogrwydd y *phonograph* ymhlith aelodau eraill y Gymdeithas:

I have left Megan [Evans] my phonograph to use at Barmouth. We have also set another phonograph working at Llanfair near Harlech. It belongs to Ben Rowlands the blacksmith there. We went under Mrs. Davison's guidance to see him and found that he possesses one – he was too shy to sing, but has promised to get others to sing into it and I am to send him some blank records for this purpose.<sup>25</sup>

Mae llythyrau Mary Davies at J. Lloyd Williams o'r cyfnod hwn (1909-13) yn frith o gyfeiriadau diddorol am hynt a helynt y casglu. Nid atgofion moel, difywyd mohonynt ond yn hytrach maent yn fyw ac yn llawn cyffro a manylder am fywyd cefn gwlad Cymru:

We had a good time last night at Chirk... and I gave the folk song address at Bronygarth. After it I had a note from George Davies of Wrexham (grandson of John Jones, Talysarn), who said –

'I enclose words of two ballads which have come from an old man, Owen Roberts at Pen y cae near Ruabon'.

So thinking there was no time like the present, I left at 8.49 this morning and stopped at Ruabon. I took a trap from the Wynnstey Arms and went in search of Owen Roberts and found him!

He knew 'Yr Hen Wr Mwyn' (Corwen tune in the Journal) and was very doniol with 'Hob y derry dando'. He used to dance on the sly. He sang 'Groen y ddafad felyn' [sic] and said that was the one to which they danced using a 'brws pel pabwydd'. You may recognize this. I did not, so he told me it was a brush made from the peelings of the 'frwyn' or 'brwyn' after making the rush lights. He also knew the dance which he called Dawnsio Toby. He could never do it without falling.

... His voice is not very good and it is rather difficult to note the tunes because he varies in every verse. He sang me a 'Bachgen Main' but only the first part which he turned into something like 6:8 time. He has plenty of words and says he could sing for a fortnight!<sup>26</sup>

---

<sup>25</sup> Llsg. L.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 112), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 25.4.1911.

<sup>26</sup> *ibid.*

Roedd cael darlun cyflawn o gefndir a chyd-destun y caneuon a ddeuai i law yn holl bwysig i Mary Davies gan na chredai y dylid anwybyddu pwysigrwydd y manylion cymdeithasol a cherddorol – hyn, yn y pen draw, a roddai ystyr ac anadl einioes i'r alawon ac roedd gofyn bod yn sustematig a disgybledig wrth gasglu a chofnodi:

August 4th, 1912

Dear Dr. Williams,

May I suggest that it is well, I think, to put dates to every tune when found, for the sake of future students.

... Shorten the announcement [in the Journal] as much as you like, but give the occasion, place and date.<sup>27</sup>

Roedd egwyddorion byd ethnogerrddoreg (a maes casglu alawon gwerin, yn enwedig) yn graddol ddod yn rhan o ddulliau cofnodi'r Gymdeithas yng Nghymru. Rhaid bod Mary Davies wedi sylweddoli bod angen gosod trefn ar y wedd bwysig hon o'r gweithgarwch, yn enwedig yn wyneb maint y deunydd a ddeuai i law bryd hynny.<sup>28</sup>

Lle bynnag yr âi i ddarlithio, manteisiai ar y cyfle i gasglu a chofnodi. Yn ddi-os, roedd yn un o gefnogwyr selocaf y Gymdeithas ac yn un o'i chasglyddion mwyaf afieithus. Er na chadwodd Mary Davies ddyddiadur swyddogol o'r teithiau casglu hyn, mae'r cofnodion a geir o'i phrofiadau ynghyd â'r troeon trwstan a phob manylyn o werth yn cael eu hadrodd yn llawn yn y llythyrau a ddeuai yn gyson i law J. Lloyd Williams. Yn dilyn eisteddfod Llangeitho ym mis Awst 1910, fe aeth i gywain caneuon mewn ardaloedd digon diarffordd o dde Ceredigion:

Mrs. Ellis and I drove into the uplands and tried to get some songs from an old chap who has been in and out of prison most of his life for drink (nothing else). He is now 84 and has turned over a new leaf. We were told he has some good songs as he had been a ballad singer in his early youth... It was a drizzling day and we had some difficulty in crossing some boggy-looking fields especially as Mrs. Ellis and Mr. Jones (a local schoolmaster) were carrying the phonograph. It was quite impossible to drive to the hut.

---

<sup>27</sup> Llsg. I.I.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 112), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 4.8.1912.

<sup>28</sup> Ar ddiwedd Adroddiad Blynnyddol cyntaf C.A.G.C. (30 Mehefin 1909) ymddengys cyfarwyddiadau ar gyfer casglwyr alawon y Gymdeithas yn dwyn y teitl 'Hints to Collectors' Mae'n dra thebygol mai Mary Davies a fu'n gyfrifol am lunio'r cyfarwyddiadau ac yn hynny o beth mae'r sylwadau a wneir yn yr ysgrif yn deillio o'i phrofiad yn y maes.

We arrived at the 'bwthyn' where a peat fire burnt at one end and a very black kettle hung over it and the smell of the peat acted as an excellent disinfectant... But oh! the dirty muddle inside was awful.

However, our toil was almost in vain for the old chap though quite courteous and polite was most voluble, but he would not sing for a long time and then he pranced off and once we nearly lost him for he said he must go and see that the cows were not eating his bit of corn! – or something else equivalent. However, Mr. Jones went to 'bugeilio' but it was no use he was frightened that the phonograph was going to record his past sins! It appears he thought we were two sanitary inspectors!!! They are sadly needed there.

I got some very imperfect records. If only I could have got the phonograph on, unawares to him. I should have secured an excellent specimen of the 'hwyl' for he began by preaching to us and his 'hwyl' was fine.<sup>29</sup>

Yn ddi-os, fe wynebodd Mary Davies anawsterau digon sylfaenol wrth gasglu deunydd yn y modd hwn – prun a oedd hi'n ymwybodol ohonynt ai peidio.

Nid peth cyffredin yr adeg honno oedd gweld gwragedd yn casglu deunydd o'r fath yng nghefn gwlad Cymru ac o'r herwydd, mae'n rhaid bod y sawl a ddeuai i gysylltiad â hi yn rhyw led-amau beth oedd ei chymhellion hi.

Roedd Mary Davies yn perthyn i haen uchel o gymdeithas Cymry-Llundain y dydd ac yn wraig a gafodd brofiad mewn byd proffesiynol. Eto, cymeriadau cefn gwlad digon cyffredin oedd y cantorion hyn a rhai digon cyndyn ar adegau i berfformio o'i blaen.

Mae'n amlwg na fyddai perchennog y bwthyn drewllyd uwchlaw Llangeitho wedi canu ei holl *repertoire* iddi, ac yn sicr, fe fyddai wedi osgoi perfformio'r caneuon mwyaf masweddus. Onid gwraig fonheddig oedd hon? Ac onid oedd dylanwad adfywiad crefyddol yn y tir?

Anhawster pellach, mae'n siwr, oedd ceisio egluro diben yr anghenfil o beiriant a ddeuai i recordio'r caneuon, a hynny i werin dlawd, ddi-ddysg a oedd yn fwy cyfarwydd o lawer â 'brws pêl pabwydd' a 'thanau mawn' nag oedden nhw â rhyfeddodau a darganfyddiadau'r byd mawr o'u hamgylch. A chan mai digon broc oedd Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yr hen 'Fair Mynorydd' (gan taw dyna'r enw barddol a roddwyd iddi gan Orsedd y Beirdd yn y man), mi fyddai hyn hefyd wedi peri cryn anhawster cyfathrebu rhyngddi hi a'i pherfformwyr.

---

<sup>29</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 58), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 20.8.1910.

Ond roedd dyfalbarhad ac ymroddiad Mary Davies i fyd caneuon gwerin Cymru yn treiddio hyd at fêr ei hesgyrn. Nid chwa dros nos oedd ei diddordeb na'i hymlyniad wrth y Mudiad y bu'n gymaint rhan ohono. Roedd ganddi'r egni i anturio, a chan fod cyfrifoldebau tŷ a theulu a'r angen i ddilyn gyrfa benodol wedi cilio erbyn hynny, roedd ganddi'r amser a'r awydd i fentro ymhellach i'r maes.

Mae hanes cofnodi'r gân 'Dacw nghariad i lawr yn y berllan'<sup>30</sup> yn ardal yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd bellach yn ddigon cyfarwydd. Fe ddaeth 'Wrth fynd efo Deio i Dywyn'<sup>31</sup> o ardal y Bermo (lle roedd gan Mary Davies wreiddiau a chysylltiadau teuluol). Yr wythnos hon roedd hi'n cywain caneuon yn Aberystwyth a De Ceredigion ac ymhen dim o dro, roedd hi'n recordio yn Sir Fôn, lle daeth o hyd i'r gân anarferol 'Y Saith Rhyfeddod'. Yn wir, doedd dim pall ar ei phrysurdeb! A phob yn eilddydd roedd 'na un, os nad dau lythyr ar ei ffordd i J. Lloyd Williams (ym Mangor) – a'r rheini'n ail-fyw ei phrofiadau yn y maes unwaith yn rhagor.

Ond roedd sêl ac awydd Mary Davies i ddysgu mwy am y maes yn ei harwain i gyfeiriadau gwahanol yn ogystal. Tra'n casglu caneuon yn Sir Feirionydd, fe ddaeth hi o hyd i lawysgrif enwog Yltyr Williams.<sup>32</sup> Yn y man, roedd y ffynhonnell werthfawr honno ar ei ffordd i'r Coleg ar y Bryn ac i 'Feca' canu gwerin y genedl. Yn anffodus, roedd dyletswyddau ac ymrwymïadau J. Lloyd Williams yn y Brifysgol ym Mangor yn ei gadw yn y Gogledd trwy gydol y tymor colegol, ac er y ddi cyfle bob yn awr ac yn y man i fynd i Ben Llŷn neu i gyfeiriad Ffestiniog i barhau â'i ymchwil, anaml iawn y câi gyfle i dreulio wythnosau ar eu hyd yn pori yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth neu'r Llyfrgell Brydeinig yn Llundain. Deuai'r fraint hon o gael darllen a chwilota ymhlith casgliadau cynnar canu gwerin Cymru yn aml i rawd Mary Davies. I raddau helaeth, hi fyddai'n chwilota ar ran J. Lloyd Williams ac yn ei gymell o bryd i'w gilydd i ddilyn y trywydd a dwyn sylw i'r naill gasgliad neu'r llall ar dudalennau'r *Cylchgrawn*. Yn 1908, darganfu Mary Davies am y tro cyntaf erioed lawysgrif John Jenkins 'Ifor Ceri' a chyfrolau cyhoeddedig John Parry ('Bardd Alaw'). Ymhen dim o dro, roedd hi'n ysgrifennu at J. Lloyd Williams ac yn ei annog i daro golwg fanwl iawn dros y casgliadau gwerthfawr hynny. I raddau helaeth, felly, roedd Mary Davies yn gyfrwng i ddwyn deunydd i sylw J. Lloyd Williams. Yn yr un modd, roedd hi yr un mor barod i drosglwyddo ffrwyth ei hymchwil mewn canolfannau fel Caergrawnt a Rhydychen i rai fel D. Emlyn Evans i'w cyhoeddi ar dudalennau'r *Cerddor* a'r *Musical Times*.

---

<sup>30</sup> *Cylchgrawn* C.A.G.C., Cyf. 1 (Bangor, 1909), tt. 77-8.

<sup>31</sup> *ibid.* tt. 132-3.

<sup>32</sup> *Llsgrau*. Bangor 2259, 2299, 4695-4754.

'Hunting the Hare' you know about, I dare say. That it was first entered at Stationers' Hall by one, Richard Jones in 1577 but with no clue as to words or tune and the title was 'A songe of the huntinge and killinge of the Hare'... The tune alone appears for the first time in Playford's 'Music is Recreation on the Lyra Viol' in 1652 and in a 2nd edition in 1661. It is also found as an Irish air in Joyce's collection.<sup>33</sup>

ac eto at J. Lloyd Williams:

June 7th 1911

Yesterday, I went to see the Pepys Library at Magdalen College and there in the first volume of ballads and broadsides, so carefully preserved by old Pepys is the original ballad of 'See the building' – no tune is attached but it may appear in some other volume. In the same volume, I came across a Ballad in 'Welch' – 'Byd y Bigail' it is called and spelt. I must have another look at some future time at the Pepys collection. It has not been completely done yet.<sup>34</sup>

Dro ar ôl tro, mae Mary Davies yn cydnabod ei diffyg profiad a'i diffyg arbenigedd yn y maes:

I fear I am a very weak reed to depend upon for real research<sup>35</sup>

ac o bryd i'w gilydd hefyd mynoga ei diffyg hyder wrth annerch cynulleidfia ar faterion yn ymwneud â cherddoriaeth werin Cymru:

I have reluctantly given up the idea of giving a paper on Folk Song to the Bangor Musical Club. I feel the ordeal before such a critical, musical and intelligent audience would be beyond my powers. I can only speak to 'Y Werin', that is the real 'folk' – not the cultured, critical and educated classes; besides propaganda work on folk songs is not necessary in Bangor.<sup>36</sup>

Fel rhywun i chwilota a darganfod ffynonellau a chyfeiriadau newydd, fel rhywun a oedd yn byrlymu o syniadau, doedd neb i'w gymharu â hi ymhlith

---

<sup>33</sup> Llsg. Ll.G.C. (8032B, rhif 20), llythyr oddi wrth Mary Davies at D. Emlyn Evans dyddiedig 2.3.1911.

<sup>34</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 110), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 7.6.1911.

<sup>35</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 58), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 2.8.1909.

<sup>36</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 112), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 21.9.1911.



syfaenwyr cynnar y Gymdeithas. Perfformwraig a chantores broffesiynol oedd Mary Davies o ran crefft ac anian ac yn ddiamau fe welir y pwyslais ymarferol hwn ar weithgareddau cynnar y Mudiad. J. Lloyd Williams oedd pen-capten ysgolheictod y Gymdeithas (roedd yn deilwng o'r fath gydnabyddiaeth ar sail ei gyhoeddiadau ac ehangder ei ddealltwriaeth o'r maes) ond awydd Mary Davies oedd cael clywed y caneuon yn cael eu canu (gan fonedd a gwreng yn ddiwahân) a manteisiai ar bob cyfle i ddwyn cerddoriaeth draddodiadol Cymru i glyw'r genedl. Trefnai fod cantores neu offerynnwr ar gael i berfformio alawon gwerin o Gymru ar ddechrau a diwedd pob Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas:

as we want to encourage as many new members as possible. It will be advisable to have as many examples as possible to show what songs have been gathered.<sup>37</sup>

Traddodai ddarlithiau gan gynnwys nifer da o ganeuon gwerin hwnt ac yma yn y cyflwyniad (a phan na fyddai ei chyfeilles Jennie Williams ar gael i'w canu, fe berfformiai Mary Davies ei hun yr eitemau dethol). Dymunai weld Otto Andersson yn talu ymweliad â Bangor<sup>38</sup> i gynnal cyngerdd o gerddoriaeth y Crwth Cymreig ac roedd yr un mor awyddus i gael Sam Jones a'i barti o blant y fro i roi cyflwyniad o ddawnsiau gwerin Arfon.<sup>39</sup>

Uwchlaw pob dim, pwysleisiai'r pwysigrwydd o gyhoeddi cerddoriaeth ac alawon y Gymdeithas er mwyn sicrhau lle iddynt yn ysgolion a chartrefi'r genedl. Yn dilyn ei phenodi i'r *University Council of Music* (y corff cenedlaethol fu'n ailgyfeirio traddodiad cerddorol Cymru dan gyfarwyddyd Syr Henry Walford Davies) un o ymdrechion pennaf 'Mair Mynorydd' oedd annog ei chyd-gerddorion i gynhyrchu casgliadau hylaw o ganeuon Cymru i ateb anghenion byd addysg y genedl.

Hyrwyddo a phoblogeiddio'r maes, ailgynnau tân y diddordeb yng ngwerthoedd traddodiadol yr oes, dyna oedd ei chomisiwn mawr hi, a fflwyth y cydweithio parod hwn rhwng W. Hubert Davies a hithau fu'n sail i gasgliad o'r enw *Welsh Folk Songs/Caneuon Gwerin Cymru* (sef un ar ddeg o ganeuon gwerin wedi'u trefnu ar gyfer llais a chyfeiliant piano) a ddaeth o'r wasg yn 1919.<sup>40</sup>

<sup>37</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 58), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 1.2.1915.

<sup>38</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 110), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 15.5.1913.

<sup>39</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 110), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 15.10.1926.

<sup>40</sup> W. Hubert Davies, *Welsh Folk Songs/Caneuon Gwerin Cymru* (Wrexham: Hughes and Son, 1919) - sef casgliad o un ar ddeg o ganeuon gwerin wedi'u trefnu ar gyfer llais a chyfeiliant piano.

Yn ddi-os, roedd na stoicrwydd di-droi'n-ôl yn perthyn i'w chymeriad. Hawliai sylw ac edmygedd ond roedd hi yr un mor benderfynol o osod trefn ar ei chydweithwyr o fewn y Gymdeithas a mynnu ei ffordd ei hun waeth beth oedd y gwrthwynebiad. Er cymaint oedd cyfraniad J. Lloyd Williams i'r maes, roedd ef yn ôl tystiolaeth yr ohebiaeth yn weithiwr braidd yn anwadal ac annibynadwy (efallai mai pwysau gormodol o du'r Coleg fu'n bennaf gyfrifol am hynny). Wrth i'r berthynas rhwng Mary Davies ac yntau ddatblygu dros y blynyddoedd mae'n amlwg mai hi oedd yn rheoli, yn penderfynu rhai o faterion pwysicaf y Gymdeithas ac yn sicrhau bod J. Lloyd Williams yntau yn cyflawni ei waith mewn da bryd:

Do try and hurry up the publication of the children's songs as I feel certain there will be a good demand [for them]<sup>41</sup>

ac eto:

you sent the MSS so perilously near the hour of performance that it was impossible to get up all the arrangements in time...<sup>42</sup>

ac eto fyth:

I hope you will try and come to some of our meetings. You have given the National Eisteddfod and the Welsh Folk Song Society the cold shoulder ever since the Aberystwyth one when you got up so excellent a choir and we had the best annual meeting we have had since.<sup>43</sup>

A phan fyddai J. Lloyd Williams o bryd i'w gilydd yn sôn am ymddiswyddo o'i waith fel Golygydd y *Cylchgrawn* (ac fe ddeuai hynny yn lled aml) byddai Mary Davies yn ymateb yn ei dull dihafal ei hun:

Feb 23rd, 1909

I am much obliged for your letter written on Sunday, but it has given me a dreadful shock. You must not think of giving up the musical editorship [of the *Journal*]. If you like to name someone else to co-operate with... to relieve you in any way you think possible, I am sure that can be done.<sup>44</sup>

---

<sup>41</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 110), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 3.9.1912.

<sup>42</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 112), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 16.9.1917.

<sup>43</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 58), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 17.6.1921.

<sup>44</sup> Llsg. Ll.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 58), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 23.2.1909.

Y gwir amdani oedd fod J. Lloyd Williams yn cael cymorth a chydweithrediad parod Mary Davies ac Amy Preece ar gyfer pob un o rifynnau'r *Cylchgrawn*, a deuai llawer o'r awgrymiadau a'r syniadau (ynglŷn â chynnwys, rhediad yr erthyglau a nifer yr alawon gwerin o bob ardal y dylid eu cyhoeddi) oddi wrthynt hwy.

June 14th, 1914

Your letter is a crushing blow. I cannot express to you the misery I feel at the proposal you hold out. Can you name your successor? You know you cannot. There is no-one who has your knowledge and experience of what has been done... Do not throw over altogether, the Society of which you have been the author and true pioneer.<sup>45</sup>

Mae'n amlwg fod gan Mary Davies barch mawr tuag at J. Lloyd Williams – mae'n cydnabod hynny yn ei gohebiaeth ato yn ogystal ag at eraill, ond heb gefnogaeth egnïol y wraig hynod hon, ni fyddai cyflwr CAGC wedi bod cystal yn y blynyddoedd cynnar hynny. Roedd J. Lloyd Williams yn ddyledus iddi hithau (does dim amheuaeth am hynny) am y fath gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Yn fuan wedi iddo symud i'r 'Coleg ger y Lli' yn Aberystwyth yn 1914 fe awgrymodd y dylid anrhydeddu Mary Davies â gradd D.Mus. (Prifysgol Cymru) am ei llafur ym myd cerddoriaeth Cymru'r cyfnod ond yn enwedig am ei hymdrechion ym myd yr alaw werin. Roedd hyn yn fodd o dalu diolch iddi am ei dyfalbarhad diflino a'i chefnogaeth ymarferol. Yn dilyn hynny, fe ddaeth galw am ei hamser o du'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, y Llyfrgell Genedlaethol a chan Gyngor Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth.

Gwrthododd y gwahoddiad i fod yn Gadeiryddes y *Society of Women Musicians*<sup>46</sup> a llu o freintiau eraill am mai byd yr alaw werin yng Nghymru oedd yn hawlio'r flaenoriaeth yn ei bywyd. Fel un o selogion y Gymdeithas fe fu'n beirniadu yng nghystadlaethau canu gwerin yr Eisteddfod Genedlaethol hyd at flynyddoedd olaf ei hoes a chwaraeodd ran allweddol yn annog y Brifwyl i ymestyn rhai o'r cystadlaethau hynny. Yn yr un modd, bu'n weithgar yn sicrhau penodiad E.T. Davies i'r Adran Gerdd ym Mangor a mynnodd weld parhad i'r gwerthoedd Cymreig yng ngweithgarwch cerddorol yr Adran – er nad efallai i'r un graddau â'r hyn a gafwyd yno dan gyfarwyddyd J. Lloyd Williams. Wrth dalu gwrogaeth iddi yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym mis Awst 1930 fe gydnabu'r Fonesig Herbert Lewis faint ei chyfraniad a'r golled aruthrol ar ei hôl.

<sup>45</sup> Lisgr. LI.G.C. (Casgliad J. Lloyd Williams 58), llythyr oddi wrth Mary Davies at J.L.W. dyddiedig 14.6.1914.

<sup>46</sup> Lisgr. Bangor 4760, llythyr oddi wrth Katharine Eggar at Mary Davies dyddiedig 7.11.1917.

Parai ei ffyddlondeb i'r gwaith a'i diddordeb di-ben-draw yn y gweithgareddau i ni deimlo fod Dr. Mary Davies a Chymdeithas Caneuon Gwerin yn un. Edrychai arni fel ei phlentyn ac ni fyddai un amser yn fwy hapus na phan yn sôn am waith y Gymdeithas, ac yn awgrymu datblygiadau newyddion.<sup>47</sup>

Mae'n dra thebygol na welodd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yr un gweithiwr na gweithwraig debyg yn ystod blynyddoedd cynnar ei sefydlu. Bu Mary Davies yn arloeswraig, yn greadigol iawn yn ei syniadau – fe fagodd y Gymdeithas a'i swcro ar adegau digon anodd yn ei hanes. Bu'n ddoeth iawn ei chynghor, yn broffesiynol yn ei hymwneud â phobl ac yn gefn i brif arweinydd y Mudiad a hynny a'i galluogodd yntau, yn ei dro, i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddiogelu traddodiad canu gwerin y genedl.

Does wybod beth fyddai hanes a datblygiad y Gymdeithas hon wedi bod oni bai i Mary Davies ysgwyddo cymaint o'r baich. Er nad oedd ganddi'r *charisma* oedd yn nodweddu J. Lloyd Williams, na'i ddylanwad o fewn i'r bywyd Cymreig, roedd hi'n gymeriad adnabyddus ym myd cerddorol yr oes a hyn yn bennaf oll fu'n fodd i ddenu cefnogaeth a hygredded i'r maes. Ei hamlochredd a'i gallu i wireddu breuddwydion – dyma un o'i chymwynasau pennaf. Trwyddi hi fe osodwyd patrwm sy'n werth i ninnau hefyd, ar drothwy canrif newydd, ei efelychu.

---

<sup>47</sup> Unfed Adroddiad ar hugain, Cymeithas Caneuon Gwerin Cymru (Mehefin 1929-Mehefin 1930), *Cylchgrawn CAGC*.

# ESBONIO GWEDDILLION

*Meredydd Evans*

Yn ail gyfrol y *Cylchgrawn* (cyf. 2, rhif 1, 1914, t.35) mae dau bennill o dan y pennawd 'Fy meddwl a fy malais', y cyntaf yn eithaf dealladwy ond yr ail yn dipyn o gybolfa.

Fe'u canwyd i Grace Gwynedd Davies gan Owen Parry, Dwyran, Ynys Môn; gŵr a roes nifer o ganeuon da iddi. Dichon mai ef ei hun oedd yn gyfrifol am gybolfa'r ail bennill ond efallai, ar y llaw arall, mai atgynhyrchu'n union yr hyn a glywodd o ganu rhywun arall yr oedd. Beth bynnag am hynny y ffaith yw mai gweddillion o gerdd gyfan yw'r penillion.

Yn ddiweddar digwyddais daro ar gopi o'r gerdd honno mewn taflen faled yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (*Baledi a Cherddi*, Cyfrol 23, Rhif 68), yn argraffedig gan 'John Owen, Pool Lane, Carnarvon', heb ddyddiad arni. Ei theitl yw 'Cerdd un yn dewis ffon o ganol y llwyni'. Tybiais y byddai o ddiddordeb i aelodau'r Gymdeithas gael golwg arni, felly, dyma hi yn union fel y'i hargraffwyd.

Fel yr oeddwn i ar foreuddydd  
Yn rhodio yn mysg coeddydd  
Yn lle roedd llwyn o feillion mân  
Yn tyfu ar lan y dolydd.

Fy meddwl i a fy malais  
Oedd myn'd i'r coed o bwrpas  
I chwilio am wialem ffind o ffon  
Pe cawn i hon ai hanes.

*ffeind/'fine'*

Roedd rhai ai crwn yn aerwon  
A rhai ai Bona yn ffurfion  
A rhai ai dauben tat y llawr  
A rhai ry fawr ney fyrion

crwyn (g)eirwon  
bonau ffyrfion  
tat/hyd at

Mi ffeiliais a chael yn unlle  
Heb arnynt amryw feia  
Roedd rhai yn holw mawr ty mewn  
Neu lawer iawn o geincia

*'hollow'*

Pan ffeiliais a chael fy mlesio  
Mi sdeddais i lawr i orffwyso  
Gan dybio laswn i lawer gwell  
Ond myn'd yn bell i rodio

buaswn



# CERDD

UN YN

68

## DEWIS FFON,

O

### GANOL Y LLWYNI.

- 1 Fel yr oeddwn i ar foreuddydd  
Yn rhodio yn mysg coeddydd  
Yn lle roedd llwyn o feillion mân  
Yn tyfu ar lan y dolydd.
- 2 Fy meddwl i a fy malais  
Oedd myn'd i'r coed o bwrpas  
I chwilio am wiilem flind o'ffon  
Pe cawn i hon ai hanes.
- 3 Roedd rhai ai crwn yn aerwon  
A rhai ai Bona yn ffurfion  
A rhai ai dauben tat y llawr  
A rhai ry fawr ney fyrion
- 4 Mi ffiliats a chael yn unlle  
Heb amynt amryw feia  
Roedd rhai yn holw mawr ty mewn  
Nes lawer iawn o geucia

*Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Mi godais inau fynu  
Mi drychais beth om deuty  
Mi welwn wialen ffind o ffon  
Rhyngwi ar fron yn tyfu

Mi nesais yn nes ati  
Maint oedd y drain ar drysni  
Gan dybio cawsw'n i wen lliw don  
Yn ffisol wrth fy ffansi.

ffisol?

Rhois arni hi inion ddyrnod  
Mi holldais hi yn hylldod  
Yn gampys iawn oi chwmpas hi  
Roedd arni hi ddrysni ormod.

Cynygiais hi yn ai brigin  
Mi holldais hyd ai gwreiddin  
Er ai nyddu ni doeddwn i haws  
Him gryddodd i draws fym coryn

naddu?  
gryddodd?

Rhy ifanc oedd hi o lawer  
A'i dail oedd leision lasoer  
Y mae hi yn siwr o fwrw i gwisce  
A bod yn wysdyd wasdad

'worsted'?

O'r diwedd mi a fyddyliais  
Fy mod i yn ffel pan ffeiliais  
Mi ganais ffarwel iddi hi  
Ac yno mi ai gadawais.

Amen.

Gwelir nad wyf yn llawn ddeall rhai o'r geiriau a byddai'n dda gennyf gael fy ngoleuo. Mae'r 'ffisol' 'na yn fy llorio'n llwyr ond efallai mai 'ceryddodd,' yw'r 'gryddodd', h.y., iddi adlamu o'i phlyg a'i daro ar ei ben. Yn ôl *The English Element in Welsh* (T.H. Parry-Williams) 'wystyd' yw'r Gymraeg am 'worsted', sef enw ar fath o ddilledyn, a thybed nad yr awgrym yw y bydd y goeden, rywbyrd, yn unffurf lom, wedi bwrw ei dail i gyd?

Boed hynny fel y bo, barnaf, sut bynnag, fod mwy i'r gerdd na'r ystyr sydd ar yr wyneb fel 'tae a'i bod yn enghraifft o gerdd erotig. Unwaith y meddyllir am y ffon ir fel geneth ifanc sy'n 'wen lliw don' mae holl ergyd y gân yn newid.

## Y GOLOFN YMCHWIL

---

Rhestr o fyfyrwyr gradd a myfyrwyr ymchwil sy'n llunio traethodau ar destunau'n ymwneud â cherddoriaeth Cymru (1996 – 1998)

**Adran Gerdd,**

**Prifysgol Cymru Bangor**

\* – mae'r traethodau hyn wedi eu cwblhau (ac wedi eu cyflwyno i'w arholi neu wedi llwyddo)

- \*Elen Wyn Jones (Y Bala)    Nicholas Bennett a'i gyfraniad i fyd canu gwerin Cymru'r 19eg ganrif (Traethawd B.A., 1997)
- sylw arbennig i deithiau casglu Nicholas Bennett, prif ffynonellau ei gyfrol *Alawon Fy Ngwlad*, ynghyd â mynegai i'r gwaith.
- \*Mererid Mair Williams    Caneuon Chwarae gyda sylw arbennig i Ysgol Gynradd Maesincla, Caernarfon (Traethawd B.Mus., 1997)
- golwg ar y math o ganeuon chwarae/caneuon clapio/caneuon o fyd y teledu y mae plant yng Nghaernarfon yn eu canu ar fuarth yr ysgol.
- \*Rachel Ley    Arglwyddes Llanofor – Pendefiges Gerddgar (Traethawd M.A., 1995-96)
- ymdriniaeth â chyfraniad arbennig Augusta Hall i fyd y delyn deires yng Nghymru, ei gwaith yn noddï telynoriaeth, disgyblion y delyn a gwneuthurwyr ar ei hystâd yn Llanofor.
- \*Aled Lloyd Davies    Agweddau Pellach ar Gelfyddyd Cerdd Dant (Traethawd Ph.D., 1995-96)
- parhad o'r astudiaeth M.A. Yma, fodd bynnag, ceir astudiaeth fanwl o unigolion o bron bob cwr o Gymru a fu'n ddiwyd yn hybu'r grefft o ganu gyda'r tannau (yn eu plith ceir gosodwyr, datgeiniaid, hyfforddwyr a chyfansoddwyr ceinciau).

- ★Carys Ann Roberts 'Ffarwel y Telynor i'w Enedigol Wlad' – Golwg ar grefft a chelfyddyd John Thomas (Pencerdd Gwalia) (Traethawd M.A., 1996-97)
- yn dilyn darganfod holl ddyddiaduron John Thomas, Pencerdd Gwalia yn y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain, fe ddaeth Carys Ann Roberts â hwy yn ôl i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Astudiaeth o yrfa John Thomas ar y cyfandir (yn enwedig yn Ffrainc, Awstria a Rwsia) trwy gyfrwng tystiolaeth y dyddiaduron hyn a geir yn y traethawd hwn.
- Deborah Davis Traddodiad y Pwnc yn Ne Orllewin Cymru (Traethawd Ph.D., 1997-98) – heb ei gyflwyno eto. Cynllun ar y cyd rhwng Prifysgol Efrog Newydd a Phrifysgol Cymru Bangor.
- Rhian Davies Morfydd Llwyn Owen (Traethawd Ph.D., 1999) – heb ei gyflwyno eto. Rhoddir cryn sylw i gyfraniad Morfydd Owen i fyd canu gwerin Cymru a'r cyswllt a fu rhyngddi ac arweinwyr y Gymdeithas (gan gynnwys Dr Mary Davies, Y Fonesig Ruth Herbert Lewis a.y.y.b.) yn y traethawd hwn.

### **Darpar Fyfyrrwyr**

- Cass Meirick Rhai agweddau ar y ffidil yng Nghymru (Traethawd M. Phil., 1997-98)
- Elen Wyn Jones Yr Athro John Lloyd Williams (Traethawd M.Phil., 1997-98)
- Ilid Ann Jones Leila Megane (Traethawd M.A., 1997-98)

# CYHOEDDIADAU

## **Ancient National Airs of Gwent and Morganwg**

Maria Jane Williams, gol. Daniel Huws £8.50

### **Hen Alawon (carolau a cherddi)**

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £5.50

### **Canu'r Cymry**

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £3.50

### **Canu'r Cymry II**

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.75

### **Caneuon Gwerin i Blant**

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.95

### **Lleisiau'r Werin**

£1.50

### **Lleisiau'r Werin 2, 3**

gol. Rhidian Griffiths £2.50, £2.75

### **Darlithiau Coffa Amy Parry-Williams**

1990 – *Canu Jim Cro*, Meredydd Evans £1.00

1991 – *Ffiniau*, Rhidian Griffiths £1.00

1992 – *Canu at iws*, D. Roy Saer £1.50

1993 – *Caneuon llafar gwlad ac Iolo a'i fath*, Daniel Huws £1.50

1995 – *O lafar i lyfr*, Phyllis Kinney £1.50

1996 – *Canu Ffolant*, Rhiannon Ifans £3.00





**Dyblygion**

**Canu gwerin**

**Folk song.**